# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 5ED MEHEFIN, 2025**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

**Noder: Cynhelir Sesiwn Briffio i'r Aelodau am 10:00yb**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor Caernarfon ac yn rhithiol drwy Zoom**

**Ac yn rhithiol drwy Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

## PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

### AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (11)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Elwyn Edwards | Delyth Lloyd Griffiths | Annwen Hughes |
| Elin Hywel | Linda Morgan | Edgar Wyn Owen |
| Arwyn Herald Roberts | Beca Roberts | Jina Gwyrfai |
| Beca Brown | Berwyn Parry Jones | Elfed Williams |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Robert Glyn Daniels | Elfed Powell Roberts |
| Peter Thomas | Rob Triggs |
| Gruffydd Williams | |

## Democratiaid Rhyddfrydol / Llafur (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2025-2026.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2025-2026.

**3. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellr eu hystyried.

**6. COFNODION** 4 - 12

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2025 fel rhai cywir.

**7. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET AMGYLCHEDD** 13 - 66

Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ar berfformiad yr Adran Amgylchedd.

**8. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC** 67 - 103

Cyfle i Aelodau drafod a chraffu mesurau a blaenoriaethau gwella'r Adran.

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, 20 MAWRTH 2025**

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:** Annwen Hughes (Cadeirydd)
Delyth Lloyd Griffiths (Is-gadeirydd)

Elwyn Edwards, Beca Brown, Linda Morgan, Beca Roberts, Edgar Wyn Owen, Jina Gwyrfai, Robert Glyn Daniels, Peter Thomas, Gruffydd Williams, Rob Triggs, Elfed Williams a Stephen Churchman.

**Swyddogion yn bresennol:**
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 5:**
Y Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Amgylchedd), Gerwyn Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd (Trafnidiaeth)) ac Iwan ap Trefor (Rheolwr Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau)

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 6:**
Y Cynghorydd June Jones (Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg ac YGC), Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC) a Amanda Jayne Murray (Rheolwr Asedau Bwrdeistrefol)

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 7:**
Y Cynghorydd June Jones (Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg ac YGC), Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC) a Meirion Williams (Pennaeth Cynorthwyol)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Arwyn Herald Roberts, Berwyn Parry Jones, Elfed Powell Roberts ac Elin Hywel.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Stephen Churchman, gan ei fod yn Gadeirydd Pwyllgor Neuadd Bentref Garndolbenmaen sy’n derbyn grant o dan y Cynllun Grant Cymunedol. Nodwyd nad oedd yn fuddiant sy’n rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

**3. MATERION BRYS**

Dim i’w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2025, fel rhai cywir.

**5. CYFLWYNO PWYNTIAU GWEFRU CYHOEDDUS AR GYFER CERBYDAU TRYDAN**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd (Trafnidiaeth) a Rheolwr Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau.

Adroddwyd bod y maes hwn yn dod yn fwy amlwg ac yn ennill proffil uwch, gyda mwy o gerbydau trydan ar y ffyrdd, gan adlewyrchu'r targed ar gyfer 2030 i leihau ac yna atal cynhyrchu cerbydau petrol a disel. Nodwyd bod yr adran yn arwain ar ddarparu mannau gwefru cyhoeddus a oedd yn brosiect blaenoriaeth o dan yr  amcan Gwynedd Werdd yng Nghynllun y Cyngor 2023-28 , gan fod teimlad mewn rhai ardaloedd o Wynedd nad yw'r sector preifat yn diwallu'r angen fel mewn mannau eraill. Esboniwyd mai'r bwriad ydy llenwi'r bylchau lle nad oes darpariaeth gan sectorau eraill.

Tynnwyd sylw at natur ddeinamig y maes, gyda datblygiadau'n digwydd yn aml ac yn sydyn. Eglurwyd nad oedd yn glir ble y byddai'r dechnoleg yn mynd nesaf, ond yr uchelgais fyddai cael argaeledd darpariaeth a fyddai'n golygu bod yr amser gwefru cerbyd trydan yr un fath â'r amser i lenwi car petrol neu ddisel.

Nodwyd bod gwaith eisoes wedi'i wneud i osod y pwyntiau gwefru, a bod cyfeiriad yn yr adroddiad at wefan 'Zapmap', sy'n dangos nifer fawr o bwyntiau gwefru newydd yn ymddangos ledled y wlad. Nodwyd y byddai hyn yn dylanwadu ar rôl y Cyngor wrth symud ymlaen, gan y byddai'n gynyddol anodd cydlynu a chael trosolwg o'r lleoliadau.

Eglurwyd bod y peiriannau'n cael eu gosod bellach mewn mannau gwaith, siopau, datblygiadau eraill ac mewn meysydd parcio sy'n eiddo i'r Cyngor ger canolfannau Byw'n Iach. Cadarnhawyd bod gwaith ar y gweill i gyflwyno mwy o bwyntiau gwefru chwim. Esboniwyd y byddai'r ffocws dros amser yn symud o argaeledd daearyddol tuag at faint o bwyntiau fydd ar gael, gan dybio y bydd y galw'n cynyddu'n gyson.

Nodwyd bod Strategaeth Isadeiledd Cerbydau Trydan Gwynedd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, gan gofio nad y mannau gwefru cyhoeddus yn unig sydd angen sylw, ond hefyd y cyfle i bobl allu gwefru gartref. Eglurwyd bod gwaith ar y gweill i archwilio sut i alluogi pobl i wefru ar y stryd, er bod hyn yn gymhleth oherwydd ystyriaethau iechyd a diogelwch ac egwyddorion Deddf Priffyrdd.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Diolchwyd am yr adroddiad, gan nodi bod cynnydd da yn cael ei wneud tuag at greu rhwydwaith gwefru trydan a bod y safleoedd newydd a'r rhai arfaethedig yn cael eu croesawu, yn enwedig y pwyntiau gwefru chwim. Mynegwyd pryder bod gormod o ddibyniaeth ar beiriannau gwefru araf 7kW. Ymhelaethwyd eu bod yn addas ar gyfer gwefru dros nos ond nid ar gyfer gwefru cyflym mewn lleoliadau fel meysydd parcio.

Croesawyd yr opsiwn o ddefnyddio cerdyn banc er mwyn talu yn hytrach na cherdyn neu apiau ar gyfer cwmnïau penodol megis GRIDSERVE neu Tesla. Credwyd bod defnyddio cerdyn banc yn ffordd symlach a bod hyn bellach yn ofyniad deddfwriaethol. Tynnwyd sylw at fylchau yn y rhwydwaith, megis Aberdaron lle'r mae'r pwynt gwefru chwim agosaf dros 50 milltir i ffwrdd ym Mhorthmadog.

Nodwyd y byddai'n ddoeth sicrhau o leiaf dau bwynt gwefru ym mhob safle, gan y byddai dibynnu ar un yn golygu risg o fynd yn sownd pe bai problem yn codi gyda'r peiriant. Atgoffwyd y pwyllgor bod creu rhwydwaith gwefru cyhoeddus yn hanfodol ar gyfer trigolion na allant osod pwynt gwefru gartref, ac ar gyfer ymwelwyr. Nodwyd bod pryderon a diffyg hyder ynghylch pellter yn rhwystr i bobl newid i gerbydau trydan, a bod cynyddu nifer y pwyntiau gwefru'n hanfodol i annog newid tuag at sero net.

Mewn ymateb, nodwyd bod adborth defnyddwyr profiadol yn werthfawr iawn wrth ddatblygu'r prosiect ac y byddai'r swyddogion yn cymryd sylw o'r pwyntiau a godwyd.

Mynegwyd siom nad oedd pwyntiau gwefru wedi'u gosod eto mewn ardaloedd megis Dyffryn Nantlle, er bod maes parcio'r Cyngor a Chanolfan Byw'n Iach wedi'u lleoli yno. Holwyd pam bod cysylltu'r pwyntiau'n cymryd cymaint o amser ac a ydy Scottish Power yn gyfrifol. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd Scottish Power yn gyfrifol am yr oedi. Eglurwyd bod cais am gyllid ym mis Medi wedi bod yn aflwyddiannus ac nad oedd modd symud ymlaen nes sicrhau arian gan Lywodraeth Cymru.

Cwestiynwyd a oes bwriad i ehangu'r ddarpariaeth i feysydd parcio ym Mhenygroes a Thalysarn. Mewn ymateb, cadarnhawyd nad oes cynlluniau penodol gan y Cyngor ar hyn o bryd y tu hwnt i'r rhai a nodwyd o fewn yr adroddiad.

Holwyd pa gynlluniau sydd ar y gweill i ehangu'r ddarpariaeth yn y dyfodol er mwyn gwasanaethu holl drigolion Gwynedd, gan gynnwys pentrefi Gwynedd, gan fod y 'Zapmap' yn dangos bylchau clir ar hyn o bryd. Mewn ymateb, nodwyd nad oes cynlluniau pendant y tu hwnt i'r cynlluniau presennol, ond y byddai strategaeth ar gyfer symud ymlaen yn cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r her o sicrhau darpariaeth sy'n cyrraedd pawb o fewn amser penodol.

Holwyd ynglŷn ag amseroedd gwefru, gan fynegi syndod at ba mor hir y gallai rhai gymryd, ac fe holwyd a oedd modd symud tuag at wefru chwim yn y dyfodol. Mewn ymateb, nodwyd bod cynlluniau i gyflwyno pwyntiau gwefru 'ultra-chwim' ym Mhwllheli, ond bod hyn yn heriol i'w ddarparu'n ehangach oherwydd safon yr isadeiledd trydan yn y sir. Nodwyd ymhellach bod cwestiwn ynglŷn â rôl y Cyngor yn darparu pwyntiau o'r math yma, gan y gallai hyn danseilio rôl y sector preifat yn y farchnad. Mynegwyd bod angen darganfod y balans cywir wrth symud ymlaen yn y dyfodol.

Cwestiynwyd a fyddai modd cynhyrchu incwm yn dilyn y buddsoddiad. Mewn ymateb, nodwyd y byddai gwell darlun erbyn y flwyddyn nesaf wrth i fwy o beiriannau chwim ddod ymlaen. Nodwyd bod y brif her i'r sector gyhoeddus yn ymwneud â sut i gynnal gwasanaeth a fyddai'n ddibynnol ar ddefnydd y cyhoedd wrth symud ymlaen.

Mynegwyd pryder am safle Dolgellau, gan nodi bod un peiriant allan o ddefnydd. Cwestiynwyd faint o hir y byddai'n cymryd i'r ail beiriant ddod yn weithredol. Mewn ymateb, nodwyd eu bod yn gweithio'n agos gyda Scottish Power ac yn disgwyl gallu cynnig gwasanaeth llawn erbyn yr haf.

Mynegwyd cefnogaeth i'r sylwadau a godwyd ynglŷn â'r angen i ehangu'r ddarpariaeth o bwyntiau gwefru trydan yn ardaloedd gwledig, megis Deiniolen. Mynegwyd pryder ynghylch sut y byddai pobl mewn ardaloedd gwledig yn gallu ymdopi â'r newid wrth agosáu at y terfyn 2030 pan fyddai cynhyrchu cerbydau petrol a disel yn dod i ben.

Mynegwyd pryderon ynghylch sut y byddai'n bosibl cynnal y '*baseload*' heb danwyddau ffosil, a phryderon ynghylch a fyddai'r cyflenwad trydan presennol yn ddigonol i gadw'r system i redeg. Nodwyd y byddai mwy o geir trydan yn arwain at fwy o bwysau ar y grid ac y byddai hynny'n peri risg o chwalfa.

Gan ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, codwyd cwestiynau am effaith y datblygiad ar lesiant, gan nodi fod prisiau trydan ymhlith yr uchaf yn y byd am y cyflenwad, a bod polisïau sero net yn peri risg o wthio pobl i dlodi tanwydd. Cyfeiriwyd at yr effaith amgylcheddol ehangach, gan nodi bod cynhyrchu batris a'r broses weithgynhyrchu yn cyfrannu at allyriadau carbon. Mynegwyd amheuon ehangach ynghylch y targedau sero net.

Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet Amgylchedd bod y sylwadau yn ymwneud â materion gwleidyddol nid gweithredol, ac nid rôl y Pwyllgor Craffu oedd gwneud penderfyniadau gwleidyddol.

Cyfeiriwyd at sylw a wnaed eisoes, nodwyd bod rôl i sectorau eraill heblaw'r Cyngor i gwrdd ag anghenion mewn ardaloedd gwledig, gan roi enghraifft o rai ardaloedd lle mae cynghorau cymuned neu neuaddau pentref eisoes wedi gosod pwyntiau gwefru.

Mynegwyd cefnogaeth i'r sylwadau bod angen ehangu'r ddarpariaeth ymhellach i ardaloedd gwledig, megis Ganllwyd, Llanelltyd a Brithdir. Rhannwyd profiad personol o newid i gerbyd hybrid, gan gydnabod pryderon am gynaliadwyedd batris ond hefyd nodi bod arbedion ariannol sylweddol i'w cael o ran costau tanwydd.

Cwestiynwyd sut y byddai'r Cyngor yn cyfathrebu â'r cyhoedd wrth symud ymlaen gyda'r amcan Gwynedd Werdd. Mewn ymateb, nodwyd bod y ffigurau defnydd hyd yma wedi bod yn gadarnhaol ac yn arwydd bod pobl yn ymwybodol ac yn manteisio ar y ddarpariaeth.

Mynegwyd pwysigrwydd gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys y darparwr grid, Scottish Power, gan gydnabod bod yr isadeiledd mewn rhai ardaloedd gwledig yn hen, mewn cyflwr gwael ac yn annigonol i ymdopi â'r pwysau ychwanegol a ddaw yn sgil targedau sero net. Nodwyd, os na wneir rhywbeth i fynd i'r afael â hyn, na fydd y targedau sero net yn cael eu cyflawni. Pwysleisiwyd bod y mater hwn yn haeddu sylw a dylanwad gan yr awdurdod lleol.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
2. **Argymell i'r Adran Amgylchedd y dylid bod isafswm o ddau bwynt gwefru ym mhob safle.**
3. **Bod y Pwyllgor yn derbyn diweddariad gan gynnwys y Cynllun Busnes a gwybodaeth am y ddarpariaeth yn ardaloedd gwledig Gwynedd ymhen blwyddyn.**

## 6. TOILEDAU CYHOEDDUS

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg ac YGC, Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC a Rheolwr Asedau Bwrdeistrefol.

Nodwyd bod gan Wynedd ar hyn o bryd 61 o doiledau cyhoeddus a 39 o doiledau mewn busnesau sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus. Pwysleisiwyd bod rhan fawr o Wynedd yn gorwedd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, ac felly fod gan y Parc Cenedlaethol ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol doiledau cyhoeddus hefyd. Nodwyd felly bod nifer dda o gyfleusterau ar gael ar hyd a lled y sir.

Eglurwyd bod yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar weithrediad y Strategaeth Toiledau Cyhoeddus ers 2019, ac yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n nodi'r camau nesaf a'r camau sydd eisoes wedi'u cyflawni i wella delwedd y toiledau cyhoeddus a chyfarch disgwyliadau defnyddwyr, yn ogystal ag egluro pa ffynonellau ariannu sydd ar gael i wella'r ddarpariaeth, beth yw'r amserlen ddiweddaraf o ran cyflwyno technoleg talu di-gyffwrdd, a beth yw'r sefyllfa o ran incwm.

Nodwyd bod grantiau amrywiol wedi'u denu drwy amryw o ffyrdd dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Pwysleisiwyd bod ymdrechion wedi

parhau i gael mynediad at grantiau, gyda chais wedi'i gyflwyno ar gyfer y rownd nesaf o arian gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Nodwyd bod cyllideb refeniw'r gwasanaeth yn gyfyngedig a'i bod wedi bod dan bwysau sylweddol oherwydd cyflwr yr adeiladau a fandaliaeth. Nodwyd bod y rhan fwyaf o'r gyllideb wedi'i defnyddio i gynnal a chadw'r cyfleusterau presennol, gan adael ychydig iawn ar gyfer adnewyddu neu wella.

Cyfeiriwyd at gynllun grant gan Llywodraeth Cymru sydd yn darparu cyllid i fusnesau sy'n fodlon agor eu cyfleusterau i'r cyhoedd. Nodwyd ei bod yn ofynnol i'r busnesau sicrhau arwyddion priodol, a bod swyddogion yn monitro bod hynny'n digwydd. Cadarnhawyd nad oes unrhyw fusnesau ar y rhestr aros ar hyn o bryd, felly mae modd cynnwys busnesau newydd pe byddent yn ymddangos. Eglurwyd bod gwefan y Cyngor yn nodi'r busnesau sy'n cymryd rhan yn y cynllun a bod y rhestr honno ar gael i'r cyhoedd. Nodwyd bod gwaith wedi mynd rhagddo i adolygu'r trefniadau glanhau, ac er bod y safonau'n gyffredinol yn foddhaol, credwyd fod lle i wella.

Atgoffwyd bod pwysau ar y Cyngor rai blynyddoedd yn ôl i arbed arian drwy gau toiledau cyhoeddus, ond yn hytrach na gwneud hynny, sefydlwyd cynllun partneriaeth gyda chynghorau tref a chymuned. Nodwyd y bydd angen adolygu'r cyfraniad hwn eleni, gan nad oes chwyddiant wedi'i godi ar y cyfraniad ers cyflwyno'r cynllun.

Nodwyd bod pum toiled gyda threfn codi tâl am eu defnydd. Nodwyd bod bid i adnewyddu a gosod drysau talu modern wedi bod yn llwyddiannus, ond y bu llithriad yn y rhaglen waith. Disgwyliwyd y byddai'r ddarpariaeth newydd ar gael cyn bo hir, ond nid oedd modd adrodd ar ei heffeithiolrwydd eto.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Diolchwyd am y cyflwyniad. Cyfeiriwyd at brif amcanion y strategaeth wrth fynegi pryder ynghylch y diffyg dull clir o'u mesur, sydd yn hollbwysig. Er enghraifft, er bod yr amcanion yn sôn am annog gwybodaeth a hyrwyddo, ni chrybwyllwyd a yw'r Cyngor yn mesur nifer yr ymweliadau â'r wefan nac yn asesu addasrwydd yr arwyddion.

Mewn ymateb, nodwyd bod drefn o fewn y broses herio perfformiad sy'n cynnwys mesur cwynion a'r mathau o gwynion sy'n cael eu derbyn mewn perthynas â'r cyfleusterau a'r drefn glanhau. Yn ogystal, nodwyd bod mesur yn bodoli ynghylch faint o ddefnydd a wneir o'r wefan a'r modd y caiff gwybodaeth ei gyfleu i'r cyhoedd. Fodd bynnag, cydnabuwyd nad yw ymgynghoriad wedi cael ei gynnal ers paratoi'r strategaeth yn 2019, ac y byddai'n amserol cynnal ymarfer tebyg unwaith eto i gasglu barn a gwybodaeth gan ddefnyddwyr.

Cyfeiriwyd at y sefyllfa o ran codi tâl mewn pum cyfleuster ar draws Gwynedd. Holwyd beth sy'n digwydd i'r arian a godir, a yw'n cael ei glustnodi i'r cyfleusterau hynny'n unig, i'r ddarpariaeth toiledau cyhoeddus ar draws y sir gyfan, neu a yw'n mynd i'r gronfa gyffredinol. Mynegwyd y farn, y dylai incwm cyfleusterau penodol, gael ei ddefnyddio i gynnal y cyfleusterau hynny.

Mewn ymateb, nodwyd nad oedd incwm sylweddol o'r ddarpariaeth, er bod targed incwm wedi ei osod. Cadarnhawyd bod yr arian a gesglir o fewn y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at gostau rhedeg y toiledau cyhoeddus.

Codwyd cwestiwn am doiledau cyhoeddus sydd eisoes wedi'u cloi, megis yn y maes parcio ym Mhenygroes, gan holi a oes unrhyw gynlluniau i'w hailagor. Nodwyd bod y toiledau wedi bod ar gau ers peth amser, ac nad oes unrhyw gyfleuster ar gael ar y

penwythnos yn yr ardal. Gofynnwyd a oes modd cydweithio â'r Cyngor Cymuned lleol i ailagor y cyfleuster, o ystyried pwysigrwydd yr ardal fel safle Treftadaeth y Byd.

Mewn ymateb, nodwyd bod y Cyngor bob amser yn ceisio cydweithio â chynghorau cymuned, ac mewn nifer o achosion, mae cynghorau cymuned wedi cydweithio gyda'r Cyngor ar ôl sylweddoli'r angen lleol. Nodwyd, serch hynny, os yw adeilad wedi dirywio dros gyfnod hir, efallai na fydd yn bosibl ei ailagor. Cadarnhawyd bod y Cyngor yn barod i ystyried pob achos unigol.

Canmolwyd safon y glanhau yn y toiledau cyhoeddus yn Ninas Dinlle, gyda sylw penodol i'r gwaith ardderchog gan y rhai sy'n gyfrifol am eu cynnal a chadw.

Mynegwyd gwerthfawrogiad am y gwaith a gyflawnwyd o dan y strategaeth, gan nodi bod Gwynedd mewn sefyllfa dda gyda chyfanswm o 100 o doiledau cyhoeddus, llawer mwy na nifer o ardaloedd eraill. Pwysleisiwyd bod y Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus yn cynnig gwasanaeth o safon, a'r gred y byddai ei ehangu'n arwain at arbedion sylweddol i'r Cyngor drwy leihau'r baich ar y gwasanaeth uniongyrchol. Cwestiynwyd faint o fusnesau sydd ar y rhestr aros ar gyfer y cynllun a phryd y disgwylir i'r bid ar gyfer y cynllun fod yn llwyddiannus.

Mewn ymateb, cadarnhawyd nad oes unrhyw fusnesau ar y rhestr aros ar hyn o bryd. Nodwyd bod y grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru yn cynyddu ychydig bob blwyddyn gyda chwyddiant, gan olygu bod modd ychwanegu o leiaf pedwar busnes newydd i'r cynllun. Eglurwyd bod swyddog yn cynnal archwiliadau blynyddol i sicrhau bod arwyddion yn eu lle, bod cyfleusterau ar agor i'r cyhoedd ac yn bodloni safon benodol. Yn ogystal, nodwyd y byddai gwaith pellach yn digwydd eleni i nodi ardaloedd nad oes ganddynt gyfleuster bellach ond lle gallai busnes lleol fod yn barod i ymuno â'r cynllun.

Cwestiynwyd a all cynghorwyr bellach annog busnesau i wneud cais am y cynllun. Mewn ymateb, chadarnhawyd bod modd gwneud hynny gan fod cyllid ar gael.

Mynegwyd cefnogaeth i'r cynllun toiledau cymunedol a phwysleisiwyd ei werth, yn ogystal â nodi bod boddhad o weld bod tri 'changing places' eisoes ar waith. Cwestiynwyd a oes unrhyw ofyniad statudol bellach sy'n golygu bod rhaid cynnwys 'changing places' mewn unrhyw ddarpariaeth newydd. Mynegwyd barn y dylai hynny fod yn orfodol.

Mewn ymateb, cadarnhawyd nad yw'n ofyniad statudol cynnwys 'changing places' mewn unrhyw gynllun newydd. Eglurwyd bod cyfleoedd wedi bod ar gyfer nodi lleoliadau posib ar gyfer cyfleusterau o'r fath, a byddai'r Cyngor yn ystyried pob cyfle wrth symud ymlaen, yn enwedig os derbynnir grant i ddatblygu cyfleusterau newydd, a'i fod wedi'i gynnwys yng nghynllun gweithredu'r strategaeth.

Mynegwyd pryder mai'r anhawster mwyaf gyda chyfleusterau 'changing places' yw bod angen eu lleoli o fewn safleoedd gyda staff er mwyn osgoi pryderon ynghylch fandaliaeth. Nodwyd bod eu lleoli mewn adeiladau sydd eisoes wedi ei staffio, megis llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol neu amgueddfeydd, yn opsiwn mwy hyfyw.

Holwyd a oes cyfle i gydweithio â busnesau sy'n rhan o'r cynllun toiledau cymunedol i ddarparu 'changing places'. Cyfeiriwyd at enghraifft benodol o'r Royal Ship Hotel yn Nolgellau, lle mae staff ar gael drwy'r dydd, gan awgrymu y gallai cytundeb gael ei gynnig er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth am gyfnod hir. Mewn ymateb, cytunwyd bod hyn yn syniad da, ond bod yr her o ddenu grantiau yn parhau'n her sylweddol.

Nodwyd bod tua 27 o'r toiledau cymunedol presennol yn cynnig cyfleusterau newid babanod, a bod hyn yn newyddion cadarnhaol. Nodwyd bod llawer o'r cyfleusterau hyn mewn caffis a busnesau tebyg, lle mae'r perchnogion yn fodlon darparu'r cyfleusterau.

Mynegwyd balchder am safon uchel glendid y toiledau cyhoeddus, gan gynnwys y rhai o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Gofynnwyd am wybodaeth ynghylch y broses o ailagor toiledau cyhoeddus sydd wedi cau, gan gynnwys y gost a'r camau y gallai cyngor cymuned eu cymryd i gydweithio â'r Cyngor. Nodwyd bod un cyngor cymuned yn ystyried ailagor toiled cyhoeddus yn eu hardal, a bod modd i eraill wneud hynny pe byddent yn deall y broses. Mewn ymateb, cadarnhawyd y byddai gwybodaeth fanwl yn cael ei hanfon ymlaen i'r Aelod.

Awgrymwyd hyrwyddo'r toiledau sydd ar gael drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol megis Facebook. Ymhelaethwyd bod hyn yn ffordd gyflym, hawdd ac am ddim i roi manylion am gyfleusterau i'r cyhoedd. Nodwyd y gallai hyn bod o gymorth i unigolion sydd angen cynllunio teithiau oherwydd materion iechyd. Awgrymwyd y gallai cynghorwyr gyfrannu at hyn drwy rannu'r wybodaeth yn eu cymunedau.

Mewn ymateb, nodwyd y byddai uned fusnes yr Adran, sydd ag arbenigedd mewn meysydd cyfathrebu ac e-ddatblygu, yn ymgymryd â'r gwaith i weithredu'r awgrym.

Holwyd a oedd cais am grant wedi'i gyflwyno i greu toiledau cyhoeddus newydd yn Nyffryn Ardudwy, gan nodi bod y bloc blaenorol bellach yn dechrau dioddef o fandaliaeth. Cadarnhawyd bod y cyngor cymuned yn fodlon cydweithio ac yn barod i gyfrannu'n ariannol. Mewn ymateb, eglurwyd bod y bloc presennol wedi dirywio'n ormodol i'w ailagor, a bod angen gwneud penderfyniad ynghylch ei ddymchwel ac adeiladu cyfleuster newydd yn ei le. Cytunwyd y byddai swyddogion yn cysylltu â'r Aelod i drafod y mater yn fanylach.

Holwyd a fyddai'r system talu ar gyfer defnyddio'r toiledau cyhoeddus yn cynnwys y dewis rhwng arian parod a cherdyn. Cadarnhawyd y byddai'r drysau talu newydd yn cynnig y ddau opsiwn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**

**7. TORRI GWAIR A CHYNNAL YMYLON FFYRDD SIROL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg ac YGC, Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC a'r Pennaeth Cynorthwyol.

Eglurwyd bod dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol i gynnal a gwella bioamrywiaeth, ond bod dyletswydd foesol hefyd ar y Cyngor i weithredu yn gadarnhaol. Nodwyd bod gan y Cyngor gyfrifoldeb fel tirfeddiannwr sylweddol i osod esiampl a chryfhau gwytnwch ecosystemau'r ardal. Mynegwyd bod y gwaith a wnaed hyd yma yn gam cyntaf cadarnhaol ac yn gam ar y ffordd tuag at wireddu'r uchelgeisiau hyn.

Cadarnhawyd bod y ffigurau presennol yn yr adroddiad yn dangos sut y mae'r gwasanaeth wedi addasu'r trefniadau torri glaswellt, gan greu mwy o arwynebedd ar gyfer blodau gwyllt i dyfu ac annog pryfed peillio. Eglurwyd y gobaith yw, wedi cwblhau'r treialon, y gellir eithrio ardaloedd sylweddol o ymylon ffyrdd o'r contract presennol a'u cynnwys mewn trefniant newydd o dorri a chasglu glaswellt.

Fodd bynnag, nodwyd y bydd angen ystyried sawl ffactor cyn gweithredu hyn, gan gynnwys hyfywedd ariannol, gan fod y Cyngor dan bwysau ariannol sylweddol a methu

fforddio cynyddu costau wrth weithredu trefniadau newydd. Nodwyd bod angen penderfynu pwy fydd yn cyflawni'r gwaith, ai gweithlu mewnol y Cyngor sydd â'r arbenigedd angenrheidiol, neu gontractwyr allanol.

Tynnwyd sylw at ymateb y cyhoedd i'r trefniadau newydd, gan gyfeirio at yr ymgyrch 'Nature is not neat' ac at y ffaith bod gan unigolion farn wahanol am daclusrwydd. Nodwyd yr angen i sicrhau nad yw'r newidiadau'n arwain at gwynion gan y cyhoedd.

Eglurwyd bod torri ymylon ffyrdd trefol hefyd yn rhan o'r gwaith, nid yn unig am resymau diogelwch ond hefyd i wella delwedd cymunedau. Yn y mannau hyn, caiff glaswellt ei dorri rhwng tair a phum gwaith y flwyddyn, a hynny'n is i'r ddaear. Nodwyd bod rhai cynghorau tref a chymuned yn talu'r Cyngor i dorri glaswellt yn amlach, ond bod eraill yn awyddus i neilltuo tir ar gyfer blodau gwyllt, gan gydweithio â'r Cyngor neu'n gofyn iddynt wneud y gwaith ar eu rhan.

Cyfeiriwyd at y treialon yn Nwyfor a'r gwaith yn Meirionnydd, lle derbyniwyd adroddiad gan ecolegydd lleol cyn dechrau'r gwaith gyda'r tîm yn gweithredu yn unol â'r adroddiad. Eglurwyd bod y profiad yn gyffredinol yn gadarnhaol, ond bod problemau wedi codi, megis pan dorrodd contractwr safle ar gam gan adael glaswellt ar wyneb y tir, neu pan fu i Dŵr Cymru dyrchu dros waith oedd eisoes wedi'i gwblhau cyn i arwyddion allu cael eu gosod. Nodwyd bod camau wedi'u cymryd i unioni'r sefyllfa ac y caiff gwersi eu dysgu.

Edrychwyd ymlaen at gamau nesaf y cynllun, gan gynnwys archwiliadau i safleoedd yn Arfon ac ehangu'r treialon y flwyddyn ganlynol, os bydd cyllid ar gael. Nodwyd bod gwaith cydweithredol yn digwydd rhwng yr Adran Amgylchedd a'r Tîm Bioamrywiaeth, gan obeithio derbyn cyllid i ychwanegu mwy o safleoedd.

Eglurwyd bod Gwasanaeth Cynnal Tiroedd wedi cychwyn cynnal treialon torri a chasglu eu hunain ar rai o'r tiroedd maent yn gyfrifol am eu cynnal, fel Cerrig yr Orsedd yng Nghaernarfon. Nodwyd bod grant gan Bartneriaeth Natur Gwynedd wedi galluogi'r Cyngor i brynu offer arbenigol, megis tractor, peiriant casglu a belar fel y byddai'r Gwasanaeth Cynnal Tiroedd yn gallu gwneud y math yma o waith ei hun yn y dyfodol ac ennill arbenigedd yn y maes.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Diolchwyd am yr adroddiad a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y gwasanaeth a'i weithwyr.

Mynegwyd pryder am y diffyg gwybodaeth yn yr adroddiad ynghylch sut y mesurir llwyddiant y treialon a'u heffaith ar fioamrywiaeth. Nodwyd bod y fethodoleg yn cael ei hamlinellu, e.e. prynu offer, paratoi'r pridd a hau hadau, ond nad oedd dulliau o fesur canlyniadau'r camau hynny wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Pwysleisiwyd nad yw'n ddigonol gweithredu heb allu profi'r canlyniadau. Gofynnwyd am sicrwydd y bydd gwybodaeth fanwl am fesur llwyddiant yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Mewn ymateb, nodwyd bod safleoedd yn cael eu hasesu gan ecolegydd cyn i unrhyw dreial ddechrau, gan gynnwys asesiad o'r rhywogaethau presennol, nifer y rhywogaethau, a safon y pridd. Nodwyd bod y wybodaeth yma yn ffurfio'r gwaelodlin i'w defnyddio fel sail i gymharu ar ddiwedd y cyfnod, ac os nad oes newid yn y data, y gellid dod i'r casgliad nad oedd y treial wedi bod yn llwyddiannus. Ymhelaethwyd bod hyn yn caniatáu ateb y cwestiwn a yw'n werth parhau yn yr ardal, ac os yw'r ateb yn gadarnhaol, ei fod yn rhoi cyfiawnhad cryfach i ehangu'r cynllun ac yn cefnogi ceisiadau am gyllid ychwanegol.

Mynegwyd pryder ynghylch diogelwch ffyrdd di-ddosbarth, gan nad ydynt yn cael eu torri'n rheolaidd. Ymhelaethwyd y gallai hyn bod yn berygl diogelwch oherwydd y rhwystr i weledEdd a achosir gan goed a gordyfiant ar y ffyrdd hyn, sydd yn aml yn gul ac yn droellog. Mynegwyd pryder, pe bai damwain yn digwydd, y gallai'r Cyngor wynebu hawliad oherwydd diffyg cynnal a chadw.

Mewn ymateb, cadarnhawyd bod trefniadau arolygu diogelwch yn bodoli ar gyfer pob ffordd, a bod canfyddiadau'r arolygiadau'n cael eu cofnodi. Eglurwyd os ystyrir bod sefyllfa'n beryglus, caiff y gwaith ei gynnwys yn y rhaglen ar unwaith neu ar gyfer ei drin yn ôl blaenoriaeth. Cadarnhawyd bod cwynion yn derbyn sylw uniongyrchol yn ystod tymor twf, a bod peirianwyr ardal yn cadw rhestrau o'r lleoliadau hynny sydd wedi derbyn nifer uchel o gwynion. Disgwylir y bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn y gwasanaeth torri unwaith yn y gwanwyn. Atgoffwyd bod y ffyrdd hyn i gyd yn cael eu torri yn yr hydref.

Mynegwyd pryder am bobl yn parcio ar ymylon glaswellt, gan achosi difrod i'r pridd a'r glaswellt, ac yn rhwystro gwaith y contractwyr. Cwestiynwyd a oes modd i'r Cyngor gydweithio'n fewnol i fynd i'r afael â hyn. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod hwn yn broblem gynyddol, yn enwedig mewn ardaloedd cefn gwlad poblogaidd ymysg ymwelwyr. Nodwyd bod y difrod yn achosi problemau cynnal, risgiau diogelwch, ac yn llesteirio'r defnydd cyhoeddus o ymylon fel llwybrau lle nad oes palmant.

Trafodwyd y posibilrwydd o osod rhwystrau neu gyfyngiadau parcio, ond mynegwyd amheuaeth ynghylch eu heffeithiolrwydd. Eglurwyd nad oes gorfodaeth barcio wedi'i sefydlu ar gyfer y safleoedd hyn, a bod rhai pobl yn dadlau eu bod yn gymwys i barcio yno. Cynghorwyd bod modd trafod gyda'r heddlu os ystyrir bod rhwystr i ddefnyddwyr eraill.

Rhoddwyd enghraifft gadarnhaol o osod bolards yn Nhalysarn, ger maes chwarae, gan sicrhau diogelwch plant, a mynegwyd gwerthfawrogiad am ymyrraeth y Cyngor yn yr achos hwnnw.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
2. **Bod y Pwyllgor yn cefnogi bwriad yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC i ymestyn y treialon torri a chasglu i ardal Arfon.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30yb a gorffennodd am 13:00yp

__________________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD** | 5 Mehefin 2025 |
| **TEITL** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Adrodd i'r Pwyllgor Craffu ar berfformiad yr Adran Amgylchedd |
| **AWDUR** | Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Craig ab Iago |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau gael eu bodloni fod gennyf i, yr Aelod Cabinet Amgylchedd, afael ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

**2. Cefndir / Cyflwyniad**

2.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor a gwaith dydd i ddydd yr Adran ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025.

2.2 Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd 2024-25. Mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

**3. Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor**

3.1 Mae'r Adran Amgylchedd yn arwain ar bump o flaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028, sef:

- Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr;
- Cynllun Datblygu Lleol Newydd;
- Gwastraff ac Ailgylchu;
- Teithio Llesol;
- Trafnidiaeth Gyhoeddus.

3.2 Rwy'n fodlon iawn gyda'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2024-2025, ac amlinellir y cynnydd yn erbyn y cerrig milltir a osodwyd ar gyfer y pump blaenoriaeth ar gyfer y llynedd yn Atodiad 1.

## 4. Gwaith dydd i ddydd yr Adran

4.1 Mae Atodiad 2 yn cynnwys y mesurau perfformiad ar gyfer Gwasanaethau ar draws yr Adran. Mae'r adroddiad cynhwysfawr yn Atodiad 2 yn cynnwys data am y cyfnod diweddaraf, ynghyd â chyd-destun ac esboniad pellach sy'n rhoi mwy o gig ar yr asgwrn ar gyfer perfformiad yr holl feysydd yn ystod 2024-25.

4.2 Mae'r Adran Amgylchedd yn cynnwys amrediad o feysydd a chyfrifoldebau, y mwyafrif llethol yn wasanaethau rheng-flaen sy'n darparu gwasanaethau allweddol i drigolion y sir. Hoffwn ddiolch i staff yr Adran am eu hymrwymiad, ac rydw i'n hyderus fod y gwaith caled maent yn ei gyflawni yn cael ei werthfawrogi gan bobl Gwynedd.

## 5. Ymgynghori

Mae'r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf i herio a chefnogi perfformiad yr Adran Amgylchedd, gyda'r Prif Weithredwr, y Pennaeth Adran, Penaethiaid Cynorthwyol a Rheolwyr Gwasanaeth.

**Atodiadau**

**Atodiad 1:** Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor
**Atodiad 2:** Mesuryddion Perfformiad yr Adran

# ATODIAD 1
# (Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd)

## Blaenoriaethau Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028
### Cynnydd ar gerrig milltir 2024-25

### Gwynedd Glyd:

- Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

### Gwynedd Werdd:

- Cynllun Datblygu Lleol newydd
- Gwastraff ac Ailgylchu
- Teithio Llesol
- Trafnidiaeth Gyhoeddus

# **Gwynedd Glyd:** Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas yn eu cymunedau

## **Prosiect:** Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr



Mae’r nifer sylweddol o dai yng Ngwynedd sy’n cael eu defnyddio fel ail gartrefi a llety gwyliau tymor-byr yn cael effaith andwyol ar allu pobl y sir i gael mynediad at gartrefi yn eu cymunedau.

Mae’r Cyngor wedi cyflwyno ymchwil manwl i’r Llywodraeth yn amlygu’r angen am weithredu ym meysydd cynllunio, trethiant a thrwyddedu er mwyn cael gwell rheolaeth o’r sefyllfa. Yn dilyn cyhoeddiadau y Llywodraeth, gan gynnwys sefydlu Peilot Dwyfor sy’n ymrwymo i gyflwyno camau i daclo problemau yn y maes, mae’r Cyngor yn gweithredu newidiadau deddfwriaethol ac yn gosod premiwm treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi a thai gwag bob blwyddyn ar gyfradd briodol i ymateb i’r sefyllfa ar y pryd.

# **Prosiect:** Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

| Cerrig milltir 2024/5 | Diweddariad ar y cerrig milltir hyd yma | Wedi cwblhau |
|---|---|---|
| **1.** Paratoi adroddiad yn dilyn cyfnod ymgysylltu ar gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i'w gyflwyno i'r:<br>· Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 16 Mai 2024;<br>· Cabinet y Cyngor ym Mehefin / Gorffennaf 2024 gydag argymhelliad i gadarnhau cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, i fod yn weithredol ar 1 Medi 2024. | **1.** Y Cabinet wedi cadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar 16 Gorffennaf 2024. | ✓ |
| **2.** Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet, defnyddio'r un dulliau ymgysylltu a wnaed yn haf 2023, i hysbysu trigolion Gwynedd y bydd Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn weithredol o 1 Medi 2024. | **2.** Wedi gweithredu yn Awst 2024. | ✓ |
| **3.** Byddwn yn rhoi trefniadau mewn lle i ragbaratoi ar gyfer gweithredu'r Cyfarwyddyd Erthygl 4. | **3.** Trefniadau mewn lle ac yn weithredol o 1 Medi 2024.. | ✓ |
| **4.** Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol (Rheoli'r defnydd o dai fel llety gwyliau) ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. | **4.** Canllaw drafft wedi ei adrodd i'r Cabinet 11 Chwefror 2025 a'i gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a'r ymgynghoriad i ddod i ben ar 7 Ebrill 2025. | ✓ |
| **5.** Ceisio cryfhau'r Tîm Erthygl 4 yn y cyfnod hyd at Medi 2024 drwy recriwtio a hyfforddi 2 swyddog cynllunio Cyfarwyddyd Erthygl 4 (gan ddefnyddio adnodd gan Lywodraeth Cymru ar y cyd ag adnodd sydd eisoes wedi ei glustnodi gan y Cabinet). | **5.** Wedi recriwtio 2 Hyfforddai Cynllunio Erthygl 4 ers Gorffennaf a Medi 2024. Rhaglen hyfforddiant yn cael ei gweithredu. | ✓ |
| **6.** O ran y Premiwm Treth Cyngor:<br>· Gwaith ymchwil i effaith y Premiwm o ran unrhyw newid defnydd eiddo, gan gynnwys ymgysylltu a dadansoddi canlyniadau (Ebrill – Gorffennaf 2024).<br>· Y Cabinet i ystyried y canlyniadau ym Medi 2024 os yw am gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gynyddu lefel y Premiwm ar gyfer 2025/26.<br>· Cynnal ymgynghoriad ar newid lefel y Premiwm - os bydd un – (Medi - Hydref 2024).<br>· Y Cyngor Llawn i ystyried lefel y Premiwm ar gyfer 2025/26 yn Rhagfyr 2024 (boed newid yn cael ei argymell neu beidio). | **6.** Y camau wedi eu cwblhau yn unol â'r amserlen. Yn dilyn y gwaith ymchwil, penderfyniad wedi ei wneud gan y Cyngor llawn yn Rhagfyr 2024 i gadw'r Premiwm ar yr un lefel ar gyfer 2025/6. | ✓ |
| **7.** Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru am fwriad i gyflwyno deddfwriaeth cynllun cofrestru a thrwyddedu statudol ar gyfer llety gwyliau erbyn diwedd 2024, ystyried goblygiadau y newid i'r Cyngor o ran gofynion gorfodaeth/rheoleiddio posib (disgwylir manylion pellach am y drefn newydd a'r disgwyliadau posib ar Gynghorau). | **7.** Y Cyngor wedi cyflawni'r gwaith sydd o fewn ein rheolaeth ar gyfer 2024/5, ac ystyried unrhyw ddatblygiadau pellach maes o law gan Lywodraeth Cymru. | ✓ |

# **Gwynedd Werdd:** Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

**Prosiect:**

Cynllun Datblygu Lleol newydd



Byddwn yn llunio Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd fydd yn cyfarch anghenion tai, cyflogaeth, cymdeithasol ac amgylcheddol trigolion y sir dros y 15 mlynedd nesaf.

# **Prosiect:** Cynllun Datblygu Lleol newydd

| **Cerrig milltir 2024/5** | **Diweddariad ar y cerrig milltir hyd yma** | **Wedi cwblhau** |
|---|---|---|
| **1.** Yn ddarostyngedig i sêl bendith Llywodraeth Cymru, cychwyn gweithredu ar y Cytundeb Cyflawni er mwyn hwyluso'r trefniadau ar gyfer y gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd i Wynedd. (Mae'n ofynnol paratoi Cynllun Datblygu Lleol o fewn cyfnod o dair mlynedd a hanner.) | **1.** Cytundeb Cyflawni wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru Ebrill 2024, ac wedi cychwyn cael ei weithredu. | ✓ |
| **2.** Gweithredu ar y cam cyn-adneuo sy'n cynnwys gwaith hel sail tystiolaeth ar gyfer y Cynllun newydd, fydd yn cynnwys:<br>· galw am safleoedd (Ebrill / Mai),<br>datblygu'r opsiynau strategol (yn dilyn o'r prif faterion, gweledigaeth ac amcanion strategol sydd wedi eu hadnabod yn 2023/24), paratoi papurau cefndir / testun penodol, asesiadau effaith (Ebrill 2024 ymlaen, gan barhau i mewn i 2025/26). | **2.** Galw am safleoedd wedi cychwyn Gorffennaf 2024 ac wedi ei ymestyn hyd at 15 Ionawr 2025. Y cam cyntaf yn y broses o hidlo safleoedd posib wedi cychwyn.<br><br>Datblygu'r opsiynau strategol ar waith. Y gwaith yn cynnwys ystyriaeth o dystiolaeth fel rhagamcanion poblogaeth Llywodraeth Cymru (ar gyfer Cymru) – gyhoeddwyd Ionawr 2025, gyda'r rhagamcanion poblogaeth ar gyfer Gwynedd i'w cyhoeddi haf 2025. | Agweddau cam cyn-adneuo wedi cwblhau'n rhannol eleni, ac i barhau yn 2025/6. |

# **Gwynedd Werdd:** Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

## **Prosiect:** Gwastraff ac Ailgylchu

Byddwn yn paratoi strategaeth gwastraff ac ailgylchu newydd er mwyn mynd i'r afael â chynyddu'r lefel ailgylchu yn y sir i gwrdd â'r targed cenedlaethol o 70% erbyn 2025.

Byddwn yn asesu pa mor effeithiol yw'n trefniadau casglu sbwriel presennol o ran hybu ailgylchu (o ddrws i ddrws ac yn ein canolfannau), ac yn cyflwyno trefniadau newydd lle bo angen.





# **Prosiect:** Gwastraff ac Ailgylchu

| **Cerrig milltir 2024/5** | **Diweddariad ar y cerrig milltir hyd yma** | **Wedi cwblhau** |
|---|---|---|
| **1.** Paratoi Strategaeth Wastraff ac Ailgylchu a fydd yn gosod cyfeiriad am y blynyddoedd i ddod gyda'r nod o uchafu lefelau ailgylchu a chamau penodol i drawsnewid y gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu.<br><br>Gan fwydo i mewn i'r gwaith strategol, byddwn yn:<br>**i.** Adolygu asedau trin gwastraff presennol a pharatoi opsiynau uwchraddio i ddatblygu safleoedd sy'n fodern ac addas i bwrpas fydd yn ein cynorthwyo i brosesu mwy o wastraff ein hunain a gwella ansawdd y cynnyrch.<br>**ii.** Fel rhan o waith ehangach o adolygu trefniadau casglu, byddwn yn treialu'r defnydd o sachau hesian ar gyfer casgliadau ailgylchu mewn hyd at 2,000 o gartrefi, yn adolygu llwyddiant er mwyn ystyried addasrwydd ymestyn i ardaloedd eraill yn y sir.<br>**iii.** Bydd gwaith codi ymwybyddiaeth, cyfathrebu ac ymgysylltu yn cyd-fynd gyda'r treial sachau hesian, a bydd cynllun newid ymddygiad yn seiliedig ar ddata yn cael ei baratoi i gefnogi'r Strategaeth Wastraff ac Ailgylchu.<br>**iv.** Trefniadau gwastraff masnachol newydd sy'n cydymffurfio gyda rheoliadau ailgylchu yn y gweithle Cymru-gyfan a hefyd trawsnewid y busnes i fod yn fwy effeithlon a modern.<br>**v.** Symud tuag at hybu economi gylchol drwy leihau tunelledd y gwastraff gweddilliol a gynhyrchir a chynyddu a chefnogi ailddefnyddio a thrwsio drwy ein canolfannau ailgylchu. | **1.** Strategaeth ddrafft wedi ei llunio, a disgwylir adrodd arno i Gabinet y Cyngor ym Mehefin 2025 am gymeradwyaeth i gynnal ymarferiad ymgysylltu/ymgynghori cyhoeddus.<br><br>**i.** Cydweithio â Wrap Cymru i baratoi cynlluniau cychwynnol ar gyfer cyfleusterau trin a phrosesu gwastraff modern ac addas i bwrpas ar gyfer safleoedd Caergylchu (Caernarfon) a Ffridd Rasus (Harlech).<br>**ii.** Cwmni arbenigol wedi eu penodi i arwain ar waith monitro'r treial fydd yn parhau tan fis Gorffennaf 2025.<br>**iii.** Cynllun codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo defnydd o wasanaethau ailgylchu penodol yn targedu ardal wedi ei dreialu yn ardal Tanygrisiau a Bangor, gyda'r bwriad i ymestyn i ardaloedd eraill yn y flwyddyn newydd.<br>**iv.** Ailstrwythuro ac ailedrych ar sut rydem yn rheoli a gweithredu gwastraff masnachol gan gynnwys prynu system swyddfa gefn newydd.<br>**v.** Nifer o brosiectau gan gynnwys asesu hygyrchedd ein canolfannau ailgylchu, annog mwy o ailgylchu a chydweithio efo partneriaid i ailddefnyddio'r defnyddiau a dderbynnir cyn eu hailgylchu. | ✓<br><br>Wedi cwblhau'n rhannol - Strategaeth ddrafft wedi ei pharatoi, gyda'r bwriad o gyflwyno am ystyriaeth buan y Cabinet. |
| **2.** Sicrhau rheolaeth ar y gorwariant, gan roi ystyriaeth i'r cynlluniau arbedion, yn ogystal â gosod strwythur staffio sy'n addas i allu cyflawni'r gwaith, o fewn yr adnoddau sydd ar gael.<br><br>Fel rhan o gynlluniau arbedion ehangach, byddwn yn ystyried amlder casgliadau gweddilliol. | **2.** Cynnydd cadarnhaol yn parhau o ran rheolaeth o'r gorwariant.<br><br>Gwaith cychwynnol yn cael ei wneud ar hyn o bryd efo Wrap Cymru i fodelu gwahanol opsiynau. | ✓<br>Parhau i reoli'r cyllidebau yn ddarbodus<br><br>Disgwylir bydd yr asesiad yn barod erbyn haf 2025 er mwyn ystyried y camau nesaf |

# **Gwynedd Werdd:** Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

## **Prosiect:** Teithio Llesol



Mae teithio llesol yn anelu i sicrhau fod cerdded a beicio yn dod y dewis arferol ar gyfer teithiau bob dydd, er mwyn gwella iechyd personol, ansawdd yr aer ac yn gwneud lleoedd yn fwy dymunol i fyw a gweithio ynddynt.

Byddwn yn gwella llwybrau cerdded a beicio presennol y sir, a chyflwyno llwybrau teithio llesol o'r newydd er mwyn hwyluso mwy o gerdded a beicio yn ein cymunedau.

# **Prosiect:** Teithio Llesol

| **Cerrig milltir 2024/5** | **Diweddariad ar y cerrig milltir hyd yma** | **Wedi cwblhau** |
|---|---|---|
| **1.** Yn dilyn cyflwyno cynlluniau manwl i Lywodraeth Cymru am gynlluniau Teithio Llesol a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, gweithredu ar y cynlluniau llwyddiannus canlynol:<br><br>· Ffordd Penrhos Bangor (ail wedd);<br>· Ysgol Rhostryfan;<br>· Ysgol Treferthyr, Cricieth. | **1.**<br>**· Ffordd Penrhos Bangor (ail wedd):**<br>Elfen cyntaf o'r ail wedd wedi ei gyflawni gyda'r gweddill sy'n cynnwys sy'n cynnwys gosod man croesi rhwng yr Ysbyty a Heol Cae Cilmelyn, wedi dechrau. Disgwylir bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn diwedd mis Mai.<br>**· Ysgol Rhostryfan:**<br>Mae'r gwaith yn parhau - strwythurau concrid ar gyfer y ramp yng nghefn yr ysgol wedi'u gosod ond gwaith pellach ei angen cyn y bydd wedi ei gwblhau. Er bod y prosiect yn cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd, mae'r contractwyr wedi ymrwymo i gwblhau'r gwaith erbyn mis Mehefin.<br>**· Ysgol Treferthyr, Cricieth:**<br>Gwaith wedi cychwyn ar safle ym mis Rhagfyr 2024, gyda'r gwaith creu llwybr cerdded a beicio a man croesi tu allan i'r ysgol yn dod i ben. Bydd y prif waith ar yr A497 wedi ei gwblhau erbyn diwedd gwyliau Sulgwyn. Fel gwaith ychwanegol, rydym hefyd yn edrych i gyflwyno llwybr troed ar Lôn Fel Isaf. | ✔<br><br>Cwblhau'n rhannol, gyda'r cynlluniau i'w cwblhau yn fuan yn 2025/6 |
| **2.** Hyrwyddo llwybrau i drigolion ac ymwelwyr i'r sir am y cyfleoedd cerdded a beicio ar rwydwaith teithio llesol Gwynedd. | **2.** Hyrwyddo'r rhwydwaith o lwybrau ar waith ac yr cyd gydag eraill (ee Croeso Cymru) | ✔<br>Gwaith parhaol |

# **Gwynedd Werdd:** Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

## **Prosiect:** Trafnidiaeth Gyhoeddus




Byddwn yn adolygu ein darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus bresennol gyda'r nod o ddatblygu rhwydwaith cludiant cyhoeddus fydd yn gyfleus, yn ddibynadwy ac yn rhesymol ei gost er mwyn caniatáu i drigolion Gwynedd deithio yn hwylus bob diwrnod o'r wythnos. Fel rhan o'r cynllun yma, byddwn hefyd yn cyflwyno bysiau trydan newydd.

# **Prosiect:** Trafnidiaeth Gyhoeddus

| **Cerrig milltir 2024/5** | **Diweddariad ar y cerrig milltir hyd yma** | **Wedi cwblhau** |
|---|---|---|
| **1.** Yn dilyn adolygiad a phroses caffael, gweithredu rhwydwaith bysiau cyhoeddus newydd ardal Meirionnydd. | **1.** Rhwydwaith newydd yn weithredol ym Meirionnydd. | ✓ |
| **2.** Wedi adolygu rhwydwaith bysiau cyhoeddus yn ardal Dwyfor, cwblhau proses tendro a gweithredu ar hynny. | **2.** Adolygiad wedi ei gynnal yn Nwyfor, ac er tendro ar rwydwaith newydd, bu'n rhaid ail-dendro ar wasanaethau hanesyddol am 2 flynedd, a bwriad adolygu trefniadau'n y cyfnod yma. | ✓ |
| **3.** Cynnal proses tendro ar gyfer gweddill Arfon (yn dilyn newidiadau sydd eisoes ar waith yn Nyffryn Nantlle a Chaernarfon), gan weithredu rhwydwaith newydd. | **3.** Adolygiad wedi ei gynnal a rhwydwaith yn weithredol. | ✓ |
| **4.** Fel rhan o'r uchod, ystyried opsiynau amgen fel Fflecsi i gyd-fynd efo gwasanaethau mwy traddodiadol fel rhan o rwydwaith integredig sy'n cynnig cyfleoedd teithio lleol a hirach. | **4.** Darpariaeth amgen fflecsi wedi eu cyflwyno mewn rhannau o Feirionnydd (Dyffryn Dulas a Dolgellau). Darpariaeth yn cael ei fonitro yn barhaus o safbwynt materion gweithredol, defnydd a chostau. | ✓ |
| **5.** Sicrhau darlun ariannol clir o ran y gost o ddarparu'r rhwydwaith a'r ffynonellau presennol amrywiol. | **5.** Mae'r prosesau pwrcasu sydd wedi mynd rhagddo fel rhan o'r adolygiad traws-sirol wedi adnabod y costau cysylltiedig â chynnal y rhwydwaith mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano. Hyn yn y cyd-destun fod wahanol elfennau i'r rhwydwaith tu hwnt i reolaeth y Cyngor (ee masnachol a wedi ei gomisiynu gan eraill – Trafnidiaeth Cymru: TrawsCymru T2, T3 a T10.)<br>Swyddogion yn cyd-weithio gyda Thrafnidiaeth Cymru a LlC ar wahanol faterion cyllidol sy'n cynnal a chefnogi'r rhwydwaith yng Ngwynedd.<br>Mae newidiadau i'r cronfeydd, y symiau sydd ar gael a sut mae'r rhain yn cael eu gweinyddu, felly angen parhau yn fyw i hyn ac ymateb yn briodol. Mae hyn yn ymestyn a chynnwys y sefyllfa a heriau cyllidol sylweddol a chyffredinol mae'r Cyngor yn ei wynebu. | ✓<br>Ydi ond gydag adolygiad parhaus |

# ATODIAD 2
# (Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd)

## Mesuryddion Gwasanaethau'r Adran Amgylchedd

Gwaith dydd i ddydd yr Adran

# Cyfeirnodau'r mesurau perfformiad

| Gwastraff & Ailgylchu | Rheolwr |
|---|---|
| G&A1 | Perfformiad Ailgylchu Gwynedd |
| G&A2 | Tunelli Gwastraff Gweddilliol |
| G&A3 | Ymholiadau Methu Casgliadau |
| G&A4 | Ystadegau Salwch |

| Gwarchod y Cyhoedd – Safonau Masnach | Rheolwr |
|---|---|
| SM1 | Canran busnesau uchel eu risg sydd wedi cael arolygiad yn unol a'r rhaglen |
| SM2 | Nifer achosion tor-cyfraith troseddol sydd wedi eu hadnabod gan y Gwasanaeth sydd wedi eu datrys |

| Gwarchod y Cyhoedd – Llygredd a Thrwyddedu | Rheolwr |
|---|---|
| LL&TH1 | Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu cais am drwydded tacsi |
| LL&TH2 | Nifer eiddo preifat sydd wedi derbyn archwiliad sampl dŵr ac asesiadau risg yn unol â'r rhaglen am y flwyddyn |

| Gwarchod y Cyhoedd – Bwyd a Diogelwch | Rheolwr |
|---|---|
| B&D1 | Canran o Fusnesau Bwyd sydd yn cyrraedd Safonau Hylendid Bwyd (sgôr o 3 neu uwch) |
| B&D2 (A)<br>B&D2 (B) | Canran o Fusnesau Bwyd sydd wedi cael arolygiad Safonau Bwyd yn unol â'r amser rhaglenedig<br>Canran o Fusnesau Bwyd sydd wedi cael arolygiad Hylendid Bwyd yn unol â'r amser rhaglenedig |

| Cynllunio | Rheolwr |
|---|---|
| C1 | Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu ar gais cynllunio |
| C2 | Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i gau ceisiadau am wasanaeth |
| C3 | Nifer o achosion honedig o dorri rheolau cynllunio sydd wedi cau |

| Polisi Cynllunio | Rheolwr |
|---|---|
| PC1 | Canran o ymatebion ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio a chyngor cyn cyflwyno cais a roddwyd o fewn amser. |

| Rheolaeth Adeiladu | Rheolwr |
|---|---|
| RH1 | Canran y ceisiadau a benderfynir o fewn amser penodol [5 ac 8 wythnos] |
| RH2 | Nifer o achosion gorfodaeth (ddim yn cynnwys adeiladau peryglus) sydd wedi eu cau/sy'n parhau i fod yn agored |
| RH3 | Nifer o achosion o adeiladau peryglus sydd wedi eu gwneud yn saff ond lle mae dal angen cwblhau gwaith ar y safle |

| Parcio a Gwaith Stryd | Rheolwr |
|---|---|
| P&GS1 | Yr amser ar gyfartaledd a gymerir i ymateb i gwynion am barcio anghyfreithlon |
| P&GS2 | Canran o apeliadau sydd wedi bod yn llwyddiannus |
| P&GS3 | Nifer o rybuddion ar y stryd/oddi ar y stryd |
| P&GS4 | Nifer y gweithiau gan ymgymerwyr statudol sydd wedi mynd dros yr amserlen wreiddiol |

| Traffig a Phrosiectau | Rheolwr |
|---|---|
| T&P1 | Nifer o welliannau sydd wedi eu cyflwyno ar y briffordd |

| Cefn Gwlad | Rheolwr |
|---|---|
| CG1 | Nifer o welliannau sydd wedi eu cyflwyno i strwythurau ar rwydwaith llwybrau y sir |

| Trafnidiaeth Cyhoeddus | Rheolwr |
|---|---|
| TC1 | Canran o siwrneiau bwys lleol sydd yn cyrraedd ar amser |
| TC2 | Canran o deithwyr sydd yn defnyddio tocyn teithio rhad/talu |

| Busnes – Swyddfa Cefn | Rheolwr |
|---|---|
| B1 | Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu ceisiadau pridiannau tir |
| B2 | Canran galwadau sydd yn derbyn ymateb |

| Monitro Cyllid | Rheolwr |
|---|---|
| MC | Cyfanswm Bidiau Ariannol a Chymharu gyda Bidiau Llwyddiannus |

# Gwastraff ac Ailgylchu


## G&A1 - Perfformiad Ailgylchu Gwynedd

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Cynnal ymgyrchoedd lleol a traws-sirol i hyrwyddo, addysgu a helpu trigolion i leihau'r gwastraff a gynhyrchir gan annog mwy o ailgylchu


**Sylwadau**

Mae Cyngor Gwynedd wedi llwyddo i gyrraedd targed ailgylchu Llywodraeth Cymru yn flynyddol hyd at 2023-24. Yn 2024-25 bu i'r targed canran ailgylchu gynyddu o 64% i 70%, ac erbyn hyn nid yw'r Cyngor yn cwrdd â'r targed statudol - ac mae risg o ddirwy oherwydd hyn. Fe welir fod canran ailgylchu Cyngor Gwynedd wedi sefydlogi ac wedi aros ar 64% ers cyrraedd y pwynt hwn. Mi fydd angen ailfeddwl a gwneud pethau yn wahanol i wthio'r drwy'r terfyn yma er mwyn cyrraedd 70%. Mae'r Strategaeth Wastraff arfaethedig yn manylu ar gynlluniau o sut mae'r adran yn bwriadu cwrdd â hyn, e.e. asesu amlder casglu, addysgu ac ymgysylltu, a.y.b.

### Perfformiad Ailgylchu Gwynedd




### Perfformiad Ailgylchu Yn Erbyn Gofynion Llywodraeth Cymru 2024-2025



# Gwastraff ac Ailgylchu


## G&A2 - Tunelli Gwastraff Gweddilliol

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Lleihau'r gwastraff gweddilliol a gesglir gan uchafu ar ddeunyddiau i'w ailgylchu / ail-ddefnyddio. Drwy hyn, cyflwyno gwasanaeth casglu dibynnol a thaclus

**Sylwadau**

Adroddir ar gyfanswm y gwastraff gweddilliol sy'n cael ei gasglu ac a gaiff ei anfon i safle Ynni o Wastraff Parc Adfer. Mae'n allweddol parhau i annog ac addysgu trigolion Gwynedd i leihau lefelau gwastraff gweddilliol oherwydd rydem yn gwybod bod deunyddiau ailgylchu yn parhau yn y ffrwd yma. Bydd lleihau'r gwastraff yn y bin gwyrdd yn mynd a ni gam agosach at y targed ailgylchu statudol, lleihau cost o dreth garbon sy'n cael ei gyflwyno yn 2028, a chaniatáu opsiynau realistig inni ailedrych ar amlder casglu. Fe welir o'r graffiau fod lleihad o 2% (560t) yn y gwastraff na ellir ei ailgylchu wedi ei anfon i Barc Adfer eleni i gymharu gyda 2023-24. Mae'r lleihad mwyaf i'w weld yn nhunelledd gwastraff masnachol, y prif resymau am hyn yw newid mewn rheoliadau ym mis Mawrth 2024, ond hefyd gostyngiad sylweddol sydd wedi bod ers mis Mawrth diwethaf yn nifer y cwsmeriaid busnes sydd gan y Cyngor bellach. Bu lleihad hefyd yn y tunelledd drwy ein canolfannau ailgylchu a gwastraff stryd. Bu cynnydd yn y tunelledd a gafodd ei gynhyrchu gan ein trigolion o ochr stryd (kerbside). Gellir mantoli hyn efo cynyddu bychan yn nifer y tai rhwng mis Mawrth 2024 a 2025 a bu i rhai tai drosglwyddo yn ôl o dalu treth busnes i dalu treth y cyngor oherwydd y newid a welwyd mewn rheolau treth.

**Tunelli Gwastraff Gweddilliol Ebrill 2024 - Mawrth 2025**




**Mae pob cartref yng Ngwynedd yn cynhyrchu 260kg o wastraff gweddilliol pob blwyddyn**



# Gwastraff ac Ailgylchu


## G&A3 - Ymholiadau 'Methu Casgliadau'

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Casglu gwastraff ac ailgylchu o 64,000 o gartrefi'r sir yn unol â'r amserlen sydd wedi ei gytuno

**Sylwadau**

Mae'r braf cael datgan bod nifer y cwynion wedi gostwng 8,200 (44%) eleni mewn cymhariaeth â'r llynedd. Fe welir o'r graff fod y sefyllfa wedi sefydlogi ers mis Rhagfyr 2023, ac er bod pig ym mis Ionawr, mae'r sefyllfa wedi gostegu yn ôl i "normal". Wrth fabwysiadu system TG Bartec a newid y dull adrodd rydem yn hyderus o leihau hwn ymhellach yn hytrach na bodloni ar y 'plateau' presennol. Mae'r debyg y byddwn hefyd yn gallu cael ystadegau o'r system Bartec er mwyn gwahaniaethu beth yw ein methiant casglu 'go iawn'. Er gwybodaeth mae'r gyfradd o adroddiadau am fethiant casglu tua 0.2% o'r biniau / bocys rydem i fod i gasglu.

## Ymholiadau Methu Casgliadau



# Gwastraff ac Ailgylchu


## G&A4 - Canran cyfartalog salwch

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Casglu gwastraff ac ailgylchu o 64,000 o gartrefi'r sir yn unol â'r amserlen sydd wedi ei gytuno


**Sylwadau**

Mae’r mesur yn amlygu canrannau salwch ymysg gweithlu casglu gwastraff. Wrth reoli salwch, mae modd gwella perfformiad methu casgliadau a lleihau costau - sef un o brif amcanion i geisio gwella'r gwasanaeth. Rhaid cofio bod natur y gwaith yma yn waith corfforol a bod trothwy “ffit i weithio” yn uwch nag mewn meysydd gwaith eraill y Cyngor. Mae gwaith penodol wedi digwydd i ymgorffori trefniadau â pholisi absenoldeb corfforaethol, gyda hyfforddiant wedi ei ddarparu er mwyn cymhwyso a grymuso arweinyddion tîm i fynd i'r afael efo lefelau salwch uchel oedd yn y gwasanaeth. Yn amlwg mae stori bersonol tu ôl i bob ystadegyn salwch, ond mae’n bwysig dangos bod yr Adran yn cymryd camau rhagweithiol i edrych ar ôl eu staff ond gan hefyd geisio gwarchod y gwasanaeth. Mae’n galonogol bod lefelau absenoldebau ymysg ein gweithlu yng ngogledd y sir wedi gostwng, ond pryder fod lefelau salwch ardaloedd eraill wedi cynyddu.

### Canran Cyfartalog Salwch




### Diwrnodau Salwch Ebrill 2024 - Mawrth 2025



# Gwarchod y Cyhoedd - Safonau Masnach


## SM1 - Canran busnesau uchel eu risg sydd wedi cael arolygiad yn unol â'r rhaglen.

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion busnes sydd â'r potensial o fod yn niweidiol, drwy sicrhau bod busnesau yn mabwysiadu ac yn cynnal trefnau ac yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i'w busnes. Monitro, dylanwadu a sicrhau safonau iechyd a lles anifeiliaid, atal heintiau peryglus a sicrhau ôl-rhain anifeiliaid fferm.


### Sylwadau

Cafodd 69 eiddo categori 'risg uchel' ei adnabod ar draws y gwasanaeth ar gyfer 2024-25. Roedd 29 o'r rhain wedi cael eu clustnodi fel archwiliadau i eiddo sy'n cael ei drwyddedu i werthu ffrwydron a thân gwyllt, tra bod yr 40 eiddo sy'n weddill yn disgyn i'r tîm Iechyd Anifeiliaid. Mae'r rhain yn eiddo/busnesau sy'n cael eu hadnabod fel risg uchel oherwydd cymhlethdod gweithgaredd y busnes, neu fod hanes a phryder o ddiffyg cydymffurfiaeth â Rheoliadau Safonau Masnach dros gyfnod o amser. Yn falch o allu adrodd ein bod wedi llwyddo i gyrraedd y targed o archwilio 100% o'r rhestr archwiliadau risg uchel ar gyfer 2024-25.
**Nodyn** Mae cynnydd sylweddol yn nifer o archwiliadau risg uchel sydd wedi cael eu cynnal yn ystod y cyfnod hwn oherwydd mai dyma'r cyfnod mae'n rhaid cynnal archwiliadau i eiddo sydd yn storio tân gwyllt. Nid oes pwrpas archwilio'r busnesau hyn hyd nes yn agos iawn i ddyddiad caniateir ei gwerthu.

### Archwiliadau Risg Uchel




### Archwiliadau yn erbyn y rhaglen waith Ebrill 2024 - Mawrth 2025




# Gwarchod y Cyhoedd - Safonau Masnach

## SM2 - Canran achosion tor-cyfraith troseddol sydd wedi eu hadnabod gan y Gwasnanaeth sydd wedi eu datrys


**Pwrpas y Gwasanaeth:** Diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion busnes sydd â'r potensial o fod yn niweidiol, drwy sicrhau bod busnesau yn mabwysiadu ac yn cynnal trefnau ac yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i'w busnes. Monitro, dylanwadu a sicrhau safonau iechyd a lles anifeiliaid, atal heintiau peryglus a sicrhau ôl-rhain anifeiliaid fferm.

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf

### Canran achosion tor-gyfraith




### Canran achosion wedi eu datrys Ebrill 2024 - Mawrth 2025



# Gwarchod y Cyhoedd - Safonau Masnach

## SM2 - Canran achosion tor-cyfraith troseddol sydd wedi eu hadnabod gan y Gwasanaeth sydd wedi eu datrys

Pwrpas y Gwasanaeth: Diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion busnes sydd â’r potensial o fod yn niweidiol, drwy sicrhau bod busnesau yn mabwysiadu ac yn cynnal trefnau ac yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i'w busnes. Monitro, dylanwadu a sicrhau safonau iechyd a lles anifeiliaid, atal heintiau peryglus a sicrhau ôl-rhain anifeiliaid fferm.

**Sylwadau**

Mae hwn yn fesurydd newydd a ddatblygwyd i fod yn weithredol o'r 1af o Ebrill 2024.
Mae achosion o dor-cyfraith troseddol yn cael ei adnabod drwy gyfuniad o adroddiadau/pryderon/cwynion sydd yn dod i sylw’r gwasanaeth gan aelodau o’r cyhoedd a busnesau, yn ogystal â gwaith rhagweithiol mae’r gwasanaeth yn ei adnabod fel rhan o archwiliadau i fusnesau. Mae’r mesur yn ogystal yn ystyried y cyfanswm ôl groniad o ddiffyg cydymffurfiaeth sydd yn parhau yn agored o 01/04/2024, ac mae’r gwasanaeth yn gweithio arno i geisio ei datrys.
Mae tor cyfraith troseddol yn cael ei ystyried fel 'torri unrhyw ddeddfwriaeth droseddol y mae Swyddogion Safonau Masnach Gwynedd wedi eu hawdurdodi i orfodi'. Nid yw hyn yn cynnwys materion tor cyfraith sifil.
Ers adrodd ar ein perfformiad hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2024, mae'r tîm Iechyd a Lles Anifeiliaid wedi bod yn parhau hefo'r gwaith o ymateb i geisiadau am wasanaeth yn ymwneud â materion iechyd a lles anifeiliaid ynghyd â chynnal archwiliadau rhaglenedig i ganolfannau casglu, marchnadoedd da byw ac archwiliadau rhaglenedig yn ymwneud â hylendid a diogelwch bwyd amaeth.
Mae’r tîm Gwarchod Defnyddwyr wedi bod yn parhau i flaenoriaethu ymateb i gudd wybodaeth yn ymwneud â gwerthiant nwyddau anghyfreithlon ar draws y sir - yn bennaf tobacco ac e-sigarets. Mae'r tîm yn ogystal yn rhan o ymgyrch aml-asiantaeth sydd ar hyn o bryd yn mynd yn ei flaen ym Mangor (yn cael ei arwain gan yr Heddlu) - yn bennaf yn cynnal archwiliadau ar y cyd i siopau sydd wedi cael eu hadnabod fel bod yn gysylltiedig â phroblemau gwrthgymdeithasol yn y ddinas, hefo'r bwriad o atafaelu nwyddau anghyfreithlon sydd yn disgyn oddi fewn ein maes gwaith.

# Gwarchod y Cyhoedd - Llygredd a Thrwyddedu


## LL&TH1 - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu cais am drwydded tacsi

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau fod gweithgareddau trwyddedig yn ymwneud a thacsis, alcohol, gamblo ac adloniant yn cael ei darparu mewn ffordd sy'n gwarchod y cyhoedd ac yn cefnogi busnesau.

### Sylwadau

Er fod symudiad o fwy o geisiadau adnewyddu trwyddedau cerbydau tacsi yn defnyddio'r system hunanwasanaeth ar-lein a chanllawiau clir am ddefnyddio'r system, mae ambell i gais yn parhau i gael eu cyflwyno yn hwyr ac yn anghyflawn, gydag oediad yn derbyn dogfennau hanfodol er mwyn gallu prosesu trwyddedau. Mae ceisiadau am drwyddedau gyrwyr sydd angen eu cyfeirio i Bwyllgor yn cymryd mwy o amser i'w prosesu. Yn y cyfnod diweddaraf, mae amser prosesu wedi gostwng, er fod sawl cais wedi ei gyfeirio am benderfyniad pwyllgor, a chynnydd mewn ceisiadau am wasanaeth megis ceisiadau trwyddedau alcohol. Mae'r gwasanaeth wedi penodi yn barhaol i ddwy swydd wag yn ddiweddar, gyda swyddogion profiadol oedd wedi eu secondio i'r swyddi ynghynt.
Ar gyfer y cyfnod diweddaraf, roedd peth oedi mewn prosesu rhai ceisiadau oherwydd oediad mewn derbyn ceisiadau cyflawn, ac rhai ceisiadau yn cael eu cyfeirio am benderfyniad Pwyllgor. Er hyn, cyfartaledd amser prosesu yn parhau yn isel iawn a llawer o geisiadau cyflawn yn cael eu prosesu yr un diwrnod. Mae'r Cynllun dirprwyo wedi ei adolygu ym mis Rhagfyr, sy'n golygu mai dim ond cesiadau am drwydded tacsi sy'n groes i bolisi sy'n cael eu cyfeirio am benderfyniad gan y Pwyllgor Trwyddedu.

### Ceisiadau Trwyddedau Tacsi ac Amser Prosesu




# Gwarchod y Cyhoedd - Llygredd a Thrwyddedu

## LL&TH2 - Nifer eiddo ar ddŵr preifat sydd wedi derbyn archwiliad sampl dŵr ac asesiadau risg yn unol â'r rhaglen am y flwyddyn


**Pwrpas y Gwasanaeth:** Diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion anniogel drwy sicrhau nad yw busnesau nac unigolion yn llygru'r amgylchedd gyda sylweddau neu sŵn annymunol.

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf

### Archwiliadau sampl dŵr eiddo preifat




### Canran Archwiliadau Boddhaol
### Ionawr - Rhagfyr 2024



# Gwarchod y Cyhoedd - Llygredd a Thrwyddedu

## LL&TH2 - Canran o eiddo sydd ar gyflenwad dwr preifat sydd wedi derbyn archwiliad sampl dwr ac asesiadau risg yn unol a'r amserlen rhaglenedig

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion anniogel drwy sicrhau nad yw busnesau nac unigolion yn llygru'r amgylchedd gyda sylweddau neu sŵn annymunol.

**Sylwadau**

*rhai yn cael eu gwneud yn fuan, felly ddim yn dangos 100% bob tro
Mae 497 o gyflenwadau dŵr yfed preifat ar y rhaglen samplo ac asesu risg. Mae'r gwaith yn statudol er mwyn sicrwydd diogelwch dŵr yfed mewn cyflenwadau gwledig o ffynhonnell breifat. Rydym yn adrodd fesul 12 mis calendr i'r 'Drinking Water Inspectorate' sydd yn rheoleiddio a gwirio gwaith yr Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau fod cyflenwadau preifat busnesau megis llety gwyliau a gwestai yn darparu dŵr glan diogel i'w cwsmeriaid a staff. Mae ceisiadau rheolaidd hefyd yn dod i samplo cyflenwadau dŵr domestig unigol, ac mae hyn yn ychwanegol i'r llwyth gwaith a adroddir arno, amcangyfrif fod tua 2,000 o gyflenwadau preifat domestig unigol.
Pan mae cyflenwad yn methu ar baramedrau sy'n cael effaith uniongyrchol ar iechyd – mae swyddogion yn gwasanaethu rhybudd, ac mae gwaith yn cael ei wneud ac ail-samplo. Mae rhwng 5% a 10% o samplau yn methu ar lefelau digon difrifol i fod angen rhybudd. Mae cydymffurfiaeth hefo'r rhybuddion bron yn 100%; felly yr elfen bwysicaf o'r gwaith yw adnabod eiddo yn y rhaglen a chynnal yr archwiliadau er mwyn adnabod lle mae risgiau i iechyd y cyhoedd. Mae'r rhaglen samplo ac asesu risg yn un statudol, tra llwyddir i gynnal y rhan fwyaf o'r samplau ar y rhaglen 12 mis, rydym yn tanberfformio yn sylweddol ar gynnal yr Asesiadau Risg, sydd angen eu cynnal bob 5 mlynedd. Yn ogystal, mae 90 o gyflenwadau newydd wedi eu samplo sydd heb dderbyn Asesiad Risg cychwynnol. Mae swyddogion o'r tîm bwyd ac iechyd a diogelwch wedi bod yn cyfrannu at y gwaith rhaglen samplo dros dro, sydd wedi caniatáu swyddogion creiddiol y tîm i ail-gychwyn y gwaith Asesiadau Risg dros y 12 mis diwethaf.
RHYBUDDION - Cyflwynwyd 26 o rybuddion ffurfiol yn 2024. Mae 100% o gyflewnadau masnachol sydd wedi methu wedi derbyn rhybuddion, a 100% bellach wedi cydymffurfio.

# Gwarchod y Cyhoedd - Bwyd a Diogelwch

## B&D1 - Canran o Fusnesau Bwyd sydd yn cyrraedd Safonau Hylendid Bwyd (sgôr o 3 neu uwch)

Pwrpas y Gwasanaeth: Sicrhau fod bwyd a diod gaiff ei werthu i'w fwyta a'i yfed gan bobl, sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddosbarthu, ei drin neu ei ddefnyddio yn y Sir yn rhydd o unrhyw berygl i iechyd a diogelwch y defnyddiwr ac yn cydymffurfio gyda gofynion cyfansoddiadol a labelu. Sicrhau fod gweithleoedd y Sir yn saff i weithwyr , defnyddwyr a chwsmeriaid  a fod cyflogwyr yn cwrdd a gofynion iechyd a diogelwch. Atal achosion o glefyd trosglwyddadwy rhai codi a lle nad yw hyn yn bosib, atal lledaeniad clefyd trosglwyddadwy ymysg y boblogaeth.

**Sylwadau**

Ar y 31/3/25 roedd 2,052 o fusnesau bwyd wedi cofrestru gyda Chyngor Gwynedd. O'r rhain roedd 2,026 (98.73%) yn cyrraedd safon hylendid bwyd boddhaol neu uwch a 26 ddim yn cwrdd â'r safon (1.27%).
Dylai fod pob eiddo sydd ddim yn cyrraedd safon hylendid bwyd boddhaol yn derbyn ail-ymweliad o fewn 3 mis o'r archwiliad gwreiddiol er mwyn sicrhau fod safonau wedi gwella.
Er mwyn tynnu sylw at y maes yma ac i annog y cyhoedd i wirio sgoriau busnesau mae'r Gwasanaeth yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth Cyfathrebu i gefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol dan arweiniad yr Asiantaeth Safonau Bwyd.
Gellir gweld sgor hylendid bwyd busnesau bwyd Gwynedd drwy ddilyn y linc: https://ratings.foof.gov.uk/cy/search-a-local-authority-area

**Canran busnesau bwyd gyda sgôr o 3 neu uwch**

**99%**


# Gwarchod y Cyhoedd - Bwyd a Diogelwch

## B&D2(A) - Canran fusnesau bwyd sydd wedi cael arolygiad Safonau Bwyd yn unol ar amser rhaglenedig.


**Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau fod bwyd a diod gaiff ei werthu i'w fwyta a'i yfed gan bobl, sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddosbarthu, ei drin neu ei ddefnyddio yn y Sir yn rhydd o unrhyw berygl i iechyd a diogelwch y defnyddiwr ac yn cydymffurfio gyda gofynion cyfansoddiadol a labelu. Sicrhau fod gweithleoedd y Sir yn saff i weithwyr , defnyddwyr a chwsmeriaid a fod cyflogwyr yn cwrdd a gofynion iechyd a diogelwch. Atal achosion o glefyd trosglwyddadwy rhai codi a lle nad yw hyn yn bosib, atal lledaeniad clefyd trosglwyddadwy ymysg y boblogaeth.

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf

### Archwiliadau Safonau Bwyd Ebrill 2024 - Mawrth 2025




### Arolygiadau wedi eu cwblhau yn erbyn y rhaglen
**Cyfnod Ebrill 2024 - Mawrth 2025**



# Gwarchod y Cyhoedd - Bwyd a Diogelwch

## B&D2(A) - Canran fusnesau bwyd sydd wedi cael arolygiad Safonau Bwyd yn unol ar amser rhaglenedig.

**Sylwadau**

Mae newidiadau sylweddol wedi bod yn nhrefniadau'r gwasanaeth dros y ddwy flynedd diwethaf gyda nifer o swyddogion profiadol yn gadael. Mae tri swyddog di-brofiad yn derbyn hyfforddiant yn bresennol (sydd angen cymhwysterau pellach i ymgymryd â dyletswyddau diogelwch bwyd swyddogol) ac un swyddog profiadol i ffwrdd ar gyfnod mamolaeth. Yn ogystal, yn dilyn ymdrech adnabod arbedion diweddar, fe fydd un swydd wag yn cael ei dorri o'r strwythur ddiwedd Mawrth 2025. Golyga hyn nad ydym yn medru cyflawni ein rhaglen archwiliadau diogelwch bwyd yn unol â'r gofynion. Rydym wedi bod ac yn parhau i flaenoriaethu archwiliadau busnesau bwyd risg uchel / uwch a busnesau newydd.

Nodir fod yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi cynnal archwiliad o'r Gwasanaeth Bwyd yn ystod Hydref 2024, ac wedi codi pryderon ynglŷn a'r diffyg adnoddau a ddarperir ar gyfer y gwaith. O ganlyniad, mae'r ASB yn datgan nad yw'r Cyngor yn cwrdd â'i ddyletswyddau statudol o ran amlder archwiliadau safonau bwyd a hylendid bwyd (gweler B&D2(B). Mae'r Gwasanaeth yn y broses o geisio cyfarch argymhellion yr ASB. Mae cais diweddar ar gyfer Hyfforddai Cynllun Yfory ar gyfer Gwarchod y Cyhoedd wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn destun adolygiad Ffordd Gwynedd mewn ymdrech i adnabod a mabwysiadu trefniadau gwaith mwy effeithiol.

# Gwarchod y Cyhoedd - Bwyd a Diogelwch


## B&D2 (B) - Canran fusnesau bwyd sydd wedi cael arolygiad Hylendid Bwyd yn unol ar amser rhaglenedig.

Pwrpas y Gwasanaeth: Sicrhau fod bwyd a diod gaiff ei werthu i'w fwyta a'i yfed gan bobl, sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddosbarthu, ei drin neu ei ddefnyddio yn y Sir yn rhydd o unrhyw berygl i iechyd a diogelwch y defnyddiwr ac yn cydymffurfio gyda gofynion cyfansoddiadol a labelu. Sicrhau fod gweithleoedd y Sir yn saff i weithwyr , defnyddwyr a chwsmeriaid a fod cyflogwyr yn cwrdd a gofynion iechyd a diogelwch. Atal achosion o glefyd trosglwyddadwy rhai codi a lle nad yw hyn yn bosib, atal lledaeniad clefyd trosglwyddadwy ymysg y boblogaeth.

**Sylwadau**


Mae'r sylwadau a nodir yn B & D2 (a) yn berthnasol i'r mesur yma hefyd. Busnesau categori risg A,B a C ynghyd a busnesau newydd sydd yn derbyn blaenoriaeth yn ystod chwarter 4 2024-25.

**Archwiliadau Hylendid Bwyd Ebrill 2024 - Mawrth 2025**






**Arolygiadau wedi eu cwblhau yn erbyn y rhaglen Cyfnod Ebrill 2024 - Mawrth 2025**




# Cynllunio
## C1 - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu ar gais cynllunio

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Hwyluso datblygiadau priodol/addas er lles cymunedau, yr economi ac amgylchedd

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf

**Pa mor sydyn mae ceisiadau Cynllunio ar gyfartaledd wedi cymryd i'w penderfynu**



# Cynllunio

# C1 - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu ar gais cynllunio

**Sylwadau**

Yn y cyfnod diweddaraf (Ionawr 2025 i ddiwedd Mawrth 2025), derbyniwyd 259 o geisiadau newydd a phenderfynwyd 296 o geisiadau. Adroddwyd yn flaenorol fod cynnydd wedi bod yn y nifer o geisiadau newydd ond mae i weld fod y nifer diweddaraf wedi lleihau ac roedd y cynnydd dros gyfnod o bedwar mis yn unig.
Mae'r nifer o geisiadau sydd yn y system heb benderfyniad o gwmpas 515, sydd wedi lleihau o'r 547 a adroddwyd yn flaenorol.
Mae'r amser penderfynu ceisiadau ar gyfartaledd wedi cynyddu i 103 diwrnod (86 diwrnod yn y flwyddyn flaenorol). Roedd 80% o benderfyniadau o fewn yr amser statudol (sef unai o dan 56 diwrnod neu gydag estyniad amser wedi ei gytuno) sydd bach yn llai na'r arfer ond ddim yn annisgwyl gan ystyried y cynnydd mewn ceisiadau diwedd chwarter blwyddyn diwethaf.


# Cynllunio

## C2 - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i gau ceisiadau am wasanaeth


**Pwrpas y Gwasanaeth:** Hwyluso datblygiadau priodol/addas er lles cymunedau, yr economi ac amgylchedd

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf

### Diwrnodau i ymateb i gais yn erbyn targed cyfnod statudol 21 diwrnod




### Nifer Ceisiadau am Wasanaeth



# Cynllunio

## C2 - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i gau ceisiadau am wasanaeth

**Sylwadau**


Yn y cyfnod yma, derbyniwyd 192 o ymholiadau a cheisiadau am gyngor ymlaen llaw a chafodd 292 o achosion eu cau (unai oherwydd nad oeddynt yn ddilys neu roedd ymateb wedi ei ddarparu). Wrth edrych yn ôl ar y cyfnod blaenorol, mae i weld fod y llwyth gwaith yn eithaf sefydlog.
Mae'r nifer o ymholiadau sy'n agored yn oddeutu 68, sydd yn llai na'r 124 a adroddwyd yn y cyfnod blaenorol.
Dros y cyfnod yma, roedd y cyfartaledd diwrnodau i ymateb wedi cynyddu o 22 i 41 diwrnod ond gan ystyried y nifer o achosion sydd wedi eu cau ynghyd a'r cynnydd mewn ceisiadau cynllunio, ni ystyrir fod hyn yn annisgwyl.
Mae i weld fod y nifer o e-byst Erthygl 4 a dderbynnir yn sefydlogi. Derbyniwyd 39 ymholiad ffurfiol, gyda 10 ohonynt yn geisiadau am gyngor cyn cyflwyno cais ffurfiol. Ar gyfartaledd mae'r amser i ymateb yn 18 diwrnod, sydd yn dangos lefel o wasanaeth da a fod yn tîm yn ymdopi â'r llwyth gwaith.

# Cynllunio

## C3 - Nifer o achosion honedig o dorri rheolau cynllunio sydd wedi cau

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Hwyluso datblygiadau priodol/addas er lles cymunedau, yr economi ac amgylchedd

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



# Cynllunio

## C3 - Nifer o achosion honedig o dorri rheolau cynllunio sydd wedi cau

**Sylwadau**

Agorwyd 56 o gwynion newydd a chaewyd 46 o achosion. Mae'r nifer o achosion agored i weld yn sefydlog ac efo'r trefniadau ac adnoddau presennol, mae'r nifer o achosion sy'n gallu cael eu cau pob mis ar gyfartaledd dal o gwmpas 15, ac o ganlyniad nid oes cynnydd sylweddol yn y nifer o achosion agored.

Erlynwyd 1 achos o ddiffyg cydymffurfiaeth gyda rhybudd gorfodaeth yn llwyddiannus yn y llysoedd yn ystod y cyfnod, a bydd gwrandawiad arall yn y llys wedi bod erbyn adeg y cyfarfod herio perfformiad nesaf.

Cyhoeddwyd 1 rhybudd gorfodaeth ac mae'r tîm yn y broses o ddelio gyda 6 apêl cynllunio yn erbyn rhybuddion cynllunio. Mae nifer o rybuddion tramgwydd cynllunio ac Adran 330 wedi eu cyflwyno lle mae ymchwiliadau yn parhau.

Mae'r gwaith o reoli a monitro arwyddion di-ganiatad / goleuedig yn ein prif ganolfannau yn parhau. Gyda 3 achos wedi datrys yn wirfoddol trwy dynnu'r arwyddion.

Mae gan y tîm Erthygl 4, 21 achos yn agored sydd yn llai na'r 26 adroddwyd yn flaenorol. Mae 6 achos wedi cael eu cau ac agorwyd 7 achos newydd. Mae yn dangos cynnydd bach yn y nifer o achosion newydd sy'n berthnasol i Erthygl 4 ers y flwyddyn newydd. Mae rhybudd Adran 330 wedi mynd allan i un eiddo ac rydym yn disgwyl cydymffurfiaeth wirfoddol ar ddau safle arall erbyn diwedd y mis. Mae'r achosion yma yn debygol o fod angen gweithred ffurfiol os nad oes cydymffurfiaeth gwirfoddol.

# Polisi Cynllunio


## PC1 - Canran o ymatebion i ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio a chyngor cyn cyflwyno cais a roddwyd o fewn amser.

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Hwyluso datblygiadau priodol/addas er lles cymunedau, yr economi ac amgylchedd

### Sylwadau

O'r 239 ymgynghoriad ar geisiadau cynllunio a chyngor cyn cyflwyno cais eleni, cyflwynwyd 223 ohonynt o fewn amser (93%). Mae hynny'n gyson gyda'r perfformiad y llynedd o 93%, gyda'r ymatebion oedd y tu hwnt i'r amserlen yn bennaf oherwydd pwysau gwaith arall yn cynnwys y gwaith ynghlwm a'r CDLl newydd a gwaith yn ymwneud â chadarnhau a gweithredu'r Cyfarwyddyd Erthygl 4. Dylid nodi nad yw'r ffigurau o reidrwydd yn portreadu'r darlun cyflawn bob amser, gall rhai ceisiadau tra 'wedi'u cwblhau' at ddibenion y dangosydd hwn (gan fod cyngor polisi cynllunio wedi'i ddarparu) arwain at drafodaethau hir a pharhaus gan eu bod yn geisiadau cymhleth sy'n gofyn am fynd i fewnbwn polisi dros gyfnod o amser.

### Ymatebion i ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio




# Rheolaeth Adeiladu

## RH1 - Canran y ceisiadau a benderfynir o fewn amser penodol [5 ac 8 wythnos]

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau bod gwaith adeiladu'n bodloni'r safonau iechyd a diogelwch rhesymol ar gyfer pobl mewn neu o gwmpas adeiladau, mynediad i gyfleusterau a chadwraeth ynni.

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf

### Ceisiadau Rheolaeth Adeiladu



# Rheolaeth Adeiladu

## RH1 - Canran y ceisiadau a benderfynir o fewn amser penodol [5 ac 8 wythnos]

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau bod gwaith adeiladu'n bodloni'r safonau iechyd a diogelwch rhesymol ar gyfer pobl mewn neu o gwmpas adeiladau, mynediad i gyfleusterau a chadwraeth ynni.

**Sylwadau**

Nod y Gwasanaeth yw cwrdd â'r terfynau amser statudol a chyflawni'r targed gofynnol ar gyfer pob cais. Mae'r cyfnod diweddaraf wedi dangos cynnydd da mewn perfformiad o ran y penderfyniadau a wnaed ar geisiadau o fewn y terfynau amser statudol. Mae hyn wedi digwydd yn sgil recriwtio 2 Swyddog Rheolaeth Adeiladu Cynorthwyol, ac Arolygydd Adeiladu dan Hyfforddiant yr LABC a ariennir yn llawn ar gontract secondiad 2 flynedd. Mae hyn wedi profi i fod yn hwb mawr i'r gwasanaeth, a byddwn yn sicrhau bod aelodau newydd y tîm yn cael eu cefnogi'n llawn. Yn dilyn deddfwriaeth newydd Deddf Diogelwch Adeiladu 2022, mae gan y gwasanaeth gynlluniau hyfforddi ar gyfer 2024/25 i weithredu ar ofynion statudol Rheolaeth Adeiladu Awdurdodau Lleol a'r Arolygwyr Preifat Cymeradwy o ran cymhwysedd, lle mae angen i swyddogion gofrestru gyda'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladu fel 'Arolygwyr Adeiladu Cofrestredig'. Mae hyn yn fygythiad i'r gwasanaeth a'r Cyngor, gan fod yn rhaid i swyddogion fod yn gymwys a'u cofrestru i allu ymarfer yn y sector, ac mae hefyd yn ddibynnol ar y dosbarth o adeilad mae cofrestru'n berthnasol iddo (risg domestig, masnachol, uchel). Bydd cyfrifoldebau statudol a safonau perfformiad ychwanegol hefyd i'w cyflawni sy'n cyflwyno her i'r Gwasanaeth a'r Cyngor, lle bydd y Cyngor yn cael ei archwilio gan Lywodraeth Cymru/Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau i sicrhau fod Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu’r Cyngor yn perfformio i’r safonau gofynnol. Mae hyn yn bwysau ychwanegol ar swyddogion y Gwasanaeth a fydd oll angen  cofrestru a phasio arholiadau perthnasol fel bod ganddynt hawl gyfreithiol i wneud eu gwaith o ddydd i ddydd o 1 Hydref 2024. Mae gan y gwasanaeth 5 Arolygydd Adeiladu Cofrestredig i Ddosbarth 2F (Masnachol a Domestig), a 4 Arolygydd Adeiladu Cofrestredig dan Hyfforddiant. Mae trefniadau cymorth a hyfforddiant, gan gynnwys cynllun y gweithlu ar gyfer y tîm ar waith, i symud gweddill y staff i gofrestru i'r lefel a'r cymhwysedd angenrheidiol. Bydd angen i swyddogion nad ydynt yn dal y cofrestriad angenrheidiol gael eu goruchwylio gan Swyddogion sy'n dal cofrestriad perthnasol y dosbarth a bydd hyn yn gosod cyfrifoldebau a dyletswyddau cyfreithiol ychwanegol. Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â diogelwch adeiladau a Gwasanaethau Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol yng Nghymru, 'Craciau yn y Sylfeini' - Diogelwch Adeiladu yng Nghymru. Mae 4 argymhelliad ar gyfer Awdurdodau Lleol, ac mae angen ymateb ar sut mae'r Cynghorau'n bwriadu gweithredu/bodloni'r argymhellion hyn i wella'r Gwasanaethau Rheolaeth Adeiladu o ran bodloni gofynion y Ddeddf Diogelwch Adeiladu a safonau perfformiad statudol. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo, ac mae cymorth, arweiniad a chydweithio yn cael ei ddarparu gan LABC ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Yn dilyn adroddiad terfynol ymchwiliad Grenfell a gyhoeddwyd ar 4 Medi 2024, gwnaed yr argymhellion a ganlyn yn y crynodeb gweithredol mewn perthynas â Rheoliaeth Adeiladu. ""Cyflwynodd cystadleuaeth am waith rhwng arolygwyr cymeradwy ac adrannau rheoli adeiladu awdurdodau lleol wrthdaro buddiannau tebyg a oedd yn effeithio arnynt. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, bydd gwrthdaro buddiannau sylfaenol yn parhau i fodoli ac yn parhau i fygwth cyfanrwydd y system. Argymhellwn felly fod y llywodraeth yn penodi panel annibynnol i ystyried a yw er budd y cyhoedd i swyddogaethau rheoli adeiladu gael eu cyflawni gan y rhai sydd â diddordeb masnachol yn y broses."" Mae’r diffygion a nodwyd gennym yn rheolaeth adeiladu awdurdodau lleol yn awgrymu, er budd proffesiynoldeb a chysondeb gwasanaeth, y dylai’r holl swyddogaethau rheoli adeiladu, gan gynnwys y rhai a gyflawnir ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol, gael eu harfer yn genedlaethol. Yn unol â hynny, rydym yn argymell bod yr un panel yn ystyried a ddylai awdurdod cenedlaethol gyflawni’r holl swyddogaethau rheoli adeiladu." Bydd y gwasanaeth a'r Adran yn monitro'r datblygiadau hyn ac yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru drwy LABC Cymru.

# Rheolaeth Adeiladu


## RH2 - Nifer o achosion gorfodaeth (ddim yn cynnwys adeiladau peryglus) sydd wedi eu cau/sy'n parhau i fod yn agored

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau bod gwaith adeiladu'n bodloni'r safonau iechyd a diogelwch rhesymol ar gyfer pobl mewn neu o gwmpas adeiladau, mynediad i gyfleusterau a chadwraeth ynni.

### Sylwadau

Yn dilyn adborth rydym wedi rhannu'r mesurydd yma a'r mesurydd RH3 yn fesuryddion ar wahân er mwyn rhoi mwy o eglurder.
Yn y cyfnod yma (1/6/24 i 31/3/25), mae'r Gwasanaeth wedi cofrestru 20 achos / cais o waith anawdurdodedig, lle mae 5 achos wedi ei gau. Mae nifer yr achosion agored bellach yn 130, sy'n amlygu'r heriau o ymdrin â'r llwyth gwaith presennol wrth gydbwyso'r amser sydd ar gael ar gyfer elfennau o'r gwasanaeth sy'n ymwneud â denu ffioedd ac elfennau heb ffioedd.
Rydym yn parhau gyda'r bwriad o gyflwyno newidiadau pellach i'r trefniadau llif gwaith yn y system swyddfa gefn, ac i sicrhau hyfforddiant staff i alluogi casglu'r wybodaeth angenrheidiol o ran adrodd yn llawn ar y ffeiliau agored o fewn cyfnodau amser penodedig. Er mwyn cynorthwyo'r Swyddogion Rheolaeth Adeiladu, bydd trafodaethau a threfniadau'n cael eu gwneud gyda'r uned cymorth technegol i ddarparu'r cymorth gweinyddol angenrheidiol i'r tîm e.e. agor a chau achosion yn y system. Rydym hefyd angen adolygu'r achosion sydd yn cael eu dangos yn agored ar hyn o bryd i gadarnhau os ydynt yn parhau yn agored a'i peidio – ond yn anffodus mae oedi anorfod wedi bod gyda hyn sgil salwch.

## Achosion gorfodaeth



# Rheolaeth Adeiladu

## RH3 - Nifer o achosion o adeiladau peryglus sydd wedi eu gwneud yn saff ond lle mae dal angen cwblhau gwaith ar y safle


**Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau bod gwaith adeiladu'n bodloni'r safonau iechyd a diogelwch rhesymol ar gyfer pobl mewn neu o gwmpas adeiladau, mynediad i gyfleusterau a chadwraeth ynni.

**Sylwadau**

Rhaid pwysleisio fod adeiladau peryglus yn cael eu gwneud yn saff o fewn 24 awr er mwyn diogelu'r cyhoedd. Yn y cyfnod ers addasu'r mesuryddion (1/6/24 i 31/3/25), mae'r Gwasanaeth wedi ymdrin â 53 achos o adeilad peryglus sydd wedi eu gwneud yn saff o fewn 24 awr, gyda 11 achos wedi eu cau. Nid yw achosion adeiladau peryglus yn cael eu cau tan mae gwaith sydd angen ei wneud ar y safle wedi ei gwblhau. Felly, gyda'r 111 achos sydd yn parhau'n agored mae gweithred wedi bod gan y Gwasanaeth i wneud yr adeilad yn saff o ran diogelwch y cyhoedd, ond mae angen cwblhau gwaith ar y safle.

Rhaid nodi fod achosion yn gallu parhau'n agored pan fo'r adeilad wedi ei wneud yn saff a'r gwaith ar y safle wedi ei gwblhau, mewn achosion lle mae'r Gwasanaeth wedi gorfod cymryd camau i wneud gwaith a thalu amdano a hynny yn sgil camau cyfreithiol sydd eu hangen i adennill costau. Nodir hefyd ein bod angen adolygu'r achosion sydd yn cael eu dangos yn agored ar hyn o bryd i gadarnhau os ydynt yn parhau yn agored a'i peidio – ond yn anffodus mae oedi anorfod wedi bod gyda hyn sgil salwch.

## Achosion strwythurau peryglus



# Parcio


## P&GS1 - Yr amser ar gyfartaledd a gymerir i ymateb i gwynion am barcio anghyfreithlon.

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

**Sylwadau**

Mae gennym gyfanswm o 7 Swyddog Gorfodaeth Parcio yn gweithredu ar draws y sir, gyda gwasanaeth yn weithredol dros 7 diwrnod yr wythnos. Mae'r gwasanaeth yn derbyn cwynion yn ddyddiol am holl agweddau sy'n ymwneud â pharcio. Yn aml iawn, nid yw'n bosibl i'r gwasanaeth weithredu oherwydd diffyg pwerau neu gyfyngiadau parcio. Ar gyfer pwrpas yr ymarferiad hwn, mae'r graff isod yn cynnwys cwynion gan Aelodau Lleol a/neu aelodau'r cyhoedd am gerbydau wedi parcio'n anghyfreithlon ar gyfyngiadau parcio yn unig - felly roedd modd i'r swyddogion weithredu. Derbyniodd 70% o'r lleoliadau ymweliad o fewn 1 diwrnod, gyda phob lleoliadau yn derbyn ymweliad o fewn 3 diwrnod. Mae pob ymdrech yn cael ei wneud i ymateb i gwynion yn brydlon, er hyn, mae'n bosibl gall cyfnodau salwch neu absenoldebau eraill o fewn y tîm greu oedi. Nid oedd yn bosibl i'r Swyddogion orfodi mewn 10% o'r lleoliadau oherwydd nad oedd cyflwr y cyfyngiadau yn cyrraedd y safon sy'n caniatáu i orfodi'n gyfreithlon. Mae ceisiadau wedi eu trosglwyddo i Adran Briffyrdd y Cyngor ar gyfer ail baentio'r ffordd.

### Yr amser a gymerir i ymateb i gwynion am barcio anghyfreithlon




# Parcio

## P&GS2 - Canran o apeliadau sydd wedi bod yn llwyddiannus.

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



# Parcio

## P&GS2 - Canran o apeliadau sydd wedi bod yn llwyddiannus.

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

**Sylwadau**

Caiff dirwyon eu rhoddi i gerbydau sy'n parcio yn groes i'r cyfyngiadau ar y stryd ac oddi ar y stryd (meysydd parcio). Mae'r gwasanaeth yn ymfalchïo yn y gallu i ymdrin â phawb mewn modd cyson, teg a thryloyw. Mae gan bob modurwr sy'n derbyn dirwy yr hawl i gyflwyno apêl petaent yn teimlo fod unrhyw annhegwch neu gamgymeriad wedi digwydd.

O'r cyfanswm 16,839 o docynnau sydd wedi eu cyflwyno gan y Cyngor, cyflwynwyd 2,779 o apeliadau (Ebrill 2024 - Mawrth 2025), cafodd 784 o'r rheini, sef 28% o'r apeliadau eu dileu. Mae 4.7% o'r holl docynnau sydd wedi eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn ariannol hyd yma wedi eu dileu.

Ar wahân i sefyllfaoedd eithafol, mae'r mwyafrif o'r apeliadau llwyddiannus gan unigolion sydd wedi prynu tocyn yn y maes parcio ond heb dalu ac arddangos am amryw o wahanol resymau e.e. y tocyn wedi syrthio o'r golwg neu cwsmer wedi mewnbynnu un digid anghywir drwy ddefnyddio'r Ap Talu gyda ffon neu ddalwyr bathodynnau glas sydd wedi camddeall yr amodau. Caiff pob apêl ystyriaeth lawn a phetai tystiolaeth gadarn yn atgyfnerthu fod camgymeriad diffuant wedi digwydd, credir ei bod yn rhesymol i ddileu'r ddirwy. Gyda pherthnasedd i'r nifer apeliadau a drosglwyddwyd i'r beirniaid annibynnol am ystyriaeth, noder mai un achos yn unig a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod penodol dan sylw, a bod canlyniad yr achos hwn yn ffafriol i'r Cyngor.


Rydym wedi addasu'r mesur i gynnwys nifer cyfanswm y Rhybudd Talu Cosb (RhTC) sydd wedi eu cyflwyno er mwyn rhoi cyd-destun ehangach yn hytrach na dim ond y rhai sydd wedi eu hapelio sy'n llwyddiannus/aflwyddiannus fel yn flaenorol. Rydym hefyd wedi ychwanegu i nodi'r cyfanswm RhTC gan ddangos os ydynt 'ar stryd' ac 'oddi ar stryd' – gweler y mesur nesaf.


# Parcio

## P&GS3 - Nifer o rybuddion ar y stryd/oddi ar y stryd

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



# Parcio

## P&GS3 - Nifer o rybuddion ar y stryd/oddi ar y stryd

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

### Sylwadau

Caiff ymdrech arbennig ei wneud gan Swyddogion Gorfodaeth Parcio'r Cyngor i sicrhau bod lefel briodol o fonitro'r rhwydwaith ffyrdd er mwyn sicrhau bod llif traffig yn symud yn ddi-rwystr. Maent yn cymryd camau gorfodaeth briodol yn erbyn modurwyr sydd yn dewis parcio'n anghyfreithlon ar ddarnau o'r briffordd, gan gynnwys mannau parcio ble caniateir i barcio am gyfnod penodol ar y stryd. Caiff ymdrech hefyd ei roi tuag at fonitro ein meysydd parcio talu ac arddangos sydd yn cynhyrchu arian sylweddol i'r Cyngor. Mae'r graff yn amlygu bod 57% o'r Rhybuddion Talu Cosb a roddwyd i fodurwyr rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025 am droseddau parcio ar y briffordd e.e. parcio ble mae cyfyngiadau parcio fel llinellau melyn sengl, dwbl, clirffordd, linell wen amddiffyn mynedfeydd, baeau parcio arhosiad cyfyngedig neu gamddefnyddio baeau anabl.


# Gwaith Stryd

## P&GS4 - Nifer gweithiau ar y briffordd sydd wedi mynd dros yr amserlen wreiddiol.

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf

## Gweithiau ar y briffordd sydd wedi mynd dros yr amserlen wreiddiol



# Gwaith Stryd

## P&GS4 - Nifer gweithiau ar y briffordd sydd wedi mynd dros yr amserlen wreiddiol.

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

**Sylwadau**

Mae gweithiau a gyflawnir ar ein strydoedd neu ffyrdd yn rhan o fywyd dydd i ddydd, ac er iddynt achosi anhwylustod i aelodau'r cyhoedd o bryd i'w gilydd, maent yn allweddol i ddarparu a chynnal gwasanaethau cyfleustodau a thrafnidiaeth. Mae archwilwyr stryd y gwasanaeth yn gyfrifol am gydlynu a monitro'r holl weithgareddau a wneir ar rwydwaith y briffordd gyhoeddus gan ymgymerwyr statudol neu gontractwyr, ac yn ymdrechu i osgoi sefyllfaoedd ble caiff ardaloedd eu haflonyddu am gyfnodau hir o ganlyniad i weithiau. Gosodir amodau penodol i geisio rheoli hyn, ac mewn rhai amgylchiadau ni roddir opsiwn i ymgymerwr allu ymestyn cyfnod. Er bod mwyafrif o'r gweithgareddau yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlen wreiddiol, nid yw'n anghyffredin i redeg dros amser ar adegau am amryw o wahanol resymau e.e. dod ar draws rhywbeth annisgwyl ar ôl cychwyn tyllu'r ffordd, oedi oherwydd problemau staffio, dibynnu ar gwmnïau eraill, methu cael gafael ar yr offer neu gyfarpar priodol. Mae'r graff uchod yn cynnwys y data a ddalwyd am y canrannau o'r gweithiau bu redeg heibio'r amserlen wreiddiol yn ystod y cyfnod penodedig. Roedd lleihad yn y nifer o weithiau a ganiateir ar y briffordd yn ystod mis Awst oherwydd cyfnod embargo cenedlaethol yn ystod gwyliau'r haf.

*Mae'n bosibl bod sefyllfaodd prin ble mae cwmniau wedi penderfynu cyflawni gweithiau heb hysbysu'r Gwasanaeth Gwaith Stryd - nid yw'r data yn cynnwys sefyllfaoedd o'r math yma."

# Traffig a Phrosiectau


## T&P1 - Nifer o welliannau sydd wedi eu cyflwyno ar y briffordd

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Rheoli a cydlynu rhwydwaith priffyrdd pwrpasol a diogel ynghyd a datblygu a gwireddu prosiectau trafnidiaeth.

**Sylwadau**

Mae hwn yn fesurydd sydd gyda’r bwriad ar adrodd ar gynnydd wrth gyflwyno gwelliannau ar y briffordd mae’r Cyngor yn gyfrifol amdani (ee marciau ffordd/ arwyddion). Mae’r gwasanaeth hwn wedi gwneud cynnydd sylweddol yn 2024/2025 i leihau'r rhestr waith sy'n berthnasol â materion traffig. Er bod rhai materion heb eu datrys o hyd, rydym yn gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r materion sy'n fwy heriol i'w cyflawni. Mae'r math o waith yn cynnwys cyflwyno cynlluniau parcio i drigolion, gwaharddiadau parcio ac arwyddion traffig. Mae pwysau chwyddiant ar gostau yn effeithio ar yr hyn y gellir ei gyflawni. Felly, mae angen blaenoriaethu rhai cynlluniau traffig i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddyrannu i’r ardaloedd mwyaf priodol. Gall hyn effeithio ar ein hamserlenni ar gyfer cyflawni newidiadau mewn rhai achosion.

**Nifer o welliannau sydd wedi eu cyflwyno ar y briffordd**



# Cefn Gwlad - Llwybrau


## CG1 - Nifer o welliannau sydd wedi eu cyflwyno i strwythurau ar rwydwaith llwybrau y sir

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Cynnal a rheoli rhwydweithiau mynediad

### Sylwadau

Mae'r mesurydd hwn yn newydd ac yn weithredol ers mis Ebrill 2024, a'r bwriad yw i arddangos y gwaith sydd yn cael ei gyflawni i gynnal a gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus. Mae'r strwythurau newydd sydd yn cael eu mewnosod ar lwybrau yn cynnwys gwelliannau megis giatiau newydd (i gymryd lle camfeydd), ac arwyddion i hwyluso defnydd. Yn ogystal mae'r nifer o weithrediadau i gynnal llwybrau yn cael eu hadrodd, mae'r rhain yn weithrediadau ar wahân ac yn ogystal â gwaith cynnal megis torri tyfiant arwyneb, gwella cyflwr arwyneb ac yn y blaen. Mae y mesuryddion yma yn eu lle ers bron i flwyddyn ac mae'r ystadegau yn parhau i ddangos amrywiaeth o fis i fis ar y ddau fesur, gellir nodi fod llai o strythurau newydd wedi eu gosod yn ystod y chwarter diweddaraf gan fod y gaeaf yn gyffredinol yn gyfnod lle caiff llai o waith ei gwblhau yn sgil tywydd ac amodau llai ffafrifol i gwblhau rhai elfennau o'r gwaith.

### Nifer o welliannau sydd wedi eu cyflwyno i strwythurau ar rwydwaith llwybrau y sir



# Trafnidiaeth Cyhoeddus

## TC1 - Canran o siwrneiau bws lleol sydd yn cyrraedd ar amser (hyd at 1 munud un gynnar neu 5 munud yn hwyr)

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Darparu cludiant o ansawdd i drigolion Gwynedd mewn modd cost effeithiol a chynaladwy

**Sylwadau**


Mae Cyngor Gwynedd drwy gyd-weithio'n agos gyda Trafnidiaeth Cymru, wedi bod yn adolygu rhwydwaith bysus cyhoeddus yng Ngwynedd. Mae hyn wedi cael ei wneud ar sail ardal wrth ardal ac mae'r gwaith wedi ei gwblhau bellach.

Bwriad yr adolygiad oedd:

- Optimeiddio adnoddau i wneud y cyfleoedd teithio yn fwy deniadol i'r cyhoedd (sy'n cynnwys cwsmeriaid newydd posib yn ogystal a'r rhai sydd eisoes yn teithio mewn ymdrech i wneud gwasanaethau yn gadarnhaol o ran yr amgylchedd ac yn ariannol gynaliadwy)
- Amserlenni hawdd i'w ddeall
- Darparu dull tocynnau mwy teg ledled Gwynedd

Mae hyn wedi arwain at, ar y cyfan, adborth cadarnhaol a chynnydd yn nifer y teithwyr sy'n argoeli'n dda ar gyfer hyfywdra a chynaladwyedd y gwasanaethau wrth symud ymlaen. Mae hyn mewn hinsawdd lle roedd niferoedd y teithwyr bws ar draws Cymru wedi bod yn gyson neu gostwng, gyda rhesymoli a chwtogi lefelau gwasanaethau bws wedi eu gweithredu mewn ardaloedd eraill o'r wlad. Un rhan o'r gwaith oedd edrych ar ar amserlenni a sicrhau fod amser digonol i'r bysiau deithio ar hyd y llwybr. Gwelir fod y canrannau yn gwella wrth i'r rhwydwaith yn setlo.

**Canran o siwrneiau bws lleol sydd yn cyrraedd ar amser**



# Trafnidiaeth Cyhoeddus

## TC2- Canran o deithwyr sydd yn defnyddio tocyn teithio rhad/talu


**Pwrpas y Gwasanaeth:** Darparu cludiant o ansawdd i drigolion Gwynedd mewn modd cost effeithiol a chynaladwy

**Sylwadau**


Mae'n galonogol gweld y rhaniad o ran y rhai sy'n talu am deithiau o'i gymharu â'r rhai sy'n teithio'n defnyddio tocynnau teithio rhad, ac rydym yn hyderus fod hyn yn dyst i'r adolygiad rhwydwaith sydd wedi ei gynnal (gw TC1). Mae'n dangos fod y rhwydwaith yma yng Ngwynedd yn parhau i gynnig gwasanaethau y mae trigolion Gwynedd ac ymwelwyr i'r sir yn creu defnydd dda ohonynt.

Yn y chwarter diwethaf 2024/5, mae niferoedd o deithwyr sydd yn talu wedi gostwng gyda nifer o deithwyr sydd hefo cerdyn teithio rhad wedi cynyddu. Rydym wedi cyflwyno newid i docynnau teithio yn ddiweddar, mae teithwyr yn talu yn ôl y pellter maent wedi teithio, gyda thocynnau unffordd wedi cael eu capio ar £4. Mae hyn yn golygu fod y pris yn rhatach i nifer o deithwyr sydd yn teithio ar ein bysiau.

**Nifer teithwyr sydd yn defnyddio tocyn teithio rhad/talu**




**Canran o deithwyr sydd yn defnyddio tocyn teithio rhad/talu Cyfnod Ebrill 2024 - Mawrth 2025**



# Busnes - Swyddfa Cefn

## B1 - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu ceisiadau pridiannau tir


**Pwrpas y Gwasanaeth:** Darparu gwybodaeth chwiliadau ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno prynu eiddo neu dir o fewn ardal yr Awdurdod Lleol

**Sylwadau**

Mae cynnydd calonogol iawn wedi ei weld gan y tîm sy'n ymwneud efo Pridiannau Tir, gyda'r amser cyfartalog i brosesu ceisiadau wedi gwella'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ac wedi sefydlogi ar oddeutu 21 erbyn diwedd 2024/5.

Cydnabyddir fod y sefyllfa wedi bod yn heriol gyda chwiliadau wedi bod yn cymryd mwy o amser nag y byddem yn dymuno i'n cwsmeriaid yn y gorffennol. Roedd hyn oherwydd cynnydd yn y galw am y gwasanaeth, yn ogystal â gwaith yn ymwneud â throsglwyddo data i system swyddfa genedlaethol, gyda Gwynedd ymhlith y Cynghorau cyntaf yng Nghymru. Yn ychwanegol i hyn, er mwyn cyflawni chwiliadau, mae angen cyswllt ac ymateb gan nifer o wasanaethau ac adrannau eraill, ac yn ddibynnol ar leoliad y chwiliad, gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd, sydd i gyd a'u heriau penodol eu hunain.

Er bod gwelliant dros y misoedd diwethaf, rhagwelir llithriad posib am gyfnod yn sgil materion capasiti oherwydd absenoldebau hir dymor. Bydd y trosglwyddo i'r system genedlaethol yn mynd yn fyw mis Hydref eleni, ac mae peth ansicrwydd am union sgil-effaith hynny. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa yn rheolaidd a defnyddio adnodd o fewn yr Uned Busnes i gynorthwyo'r Uned Pridiannau Tir lle posib a phan fydd yr angen.



# Busnes - Swyddfa Cefn


## B2 - Canran galwadau sydd yn derbyn ymateb

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Cefnogi swyddogion Gwarchod y Cyhoedd, drwy darparu gwasanaeth rheng flaen i ymholiadau cwsmeriaid

### Sylwadau

Mae llithriad wedi bod dros y flwyddyn diwethaf yn ganran atebwyd oherwydd ein bod wedi gweithredu a chyflawni cynllun arbedion o leihau strwythur y tîm o 4 i 3 a'r trydydd swyddog wedi derbyn swydd newydd sy'n golygu bod y tîm wedi bod lawr i ddwy aelod, ac ar adegau un oherwydd absenoldeb. Rydym wedi bod yn llwyddiannus yn penodi aelod newydd i'r tîm ddechrau Chwefror, sydd wedi cael effaith cadarnhaol ar ein canran ateb galwadau dros y ddau mis diwethaf a rhagwelir gwelliant pellach yn dilyn cyfnod hyfforddiant pellach.

## Galwadau i'r hunt grŵp Gwarchod Y Cyhoedd



# Monitro Cyllid


## MC - Cyfanswm Bidiau Ariannol a Chymharu gyda Bidiau Llwyddiannus (Data Rheolaethol)

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Cefnogi Gwasanaethau ar draws yr Adran ar faterion monitro cyllid, prosesau caffael a phryun'n ddoeth a systemau TG.

### Sylwadau

Un o'r elfennau mae'r Adran yn rhagori ynddo yw denu grantiau ar gyfer cynlluniau gwelliant ar ein rhwydwaith ffyrdd, llwybrau a'r rhwydwaith 'teithio llesol' aml-ddefnydd, gwaith adweithiol i warchod bywyd gwyllt a'r tirweddau, gwella Hawliau Tramwy, datblygu a chynnal llwybrau arfordir, gwella ansawdd a chyflwr ardaloedd AHNE; rhwydwaith lonydd las; Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llyn a'r Sarnau; Ecosystemau Morol; a tirlyn llyn. Mae'r Adran yn draddodiadol wedi bod yn llwyddiannus mewn denu grantiau ar gyfer cynlluniau fel gwelliannau ffyrdd a phontydd; llwybrau beicio a llwybrau diogel o fewn ein cymunedau, cynnal a datblygu llwybrau cerdded, beicio a marchogaeth yn ogystal â chadwraeth a diogelu rhywogaethau a thirlun.

### Bidiau Ariannol a Chymharu gyda Bidiau Llwyddiannus 2024/2025



| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu |
| **DYDDIAD** | 5 Mehefin, 2025 |
| **TEITL** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg ac YGC |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Cyfle i Aelodau drafod a chraffu mesurau a blaenoriaethau gwella'r Adran |
| **AWDUR** | Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd. June Jones |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor gael eu bodloni fod gennyf i, yr Aelod Cabinet dros Priffyrdd, Peirianneg ac YGC, afael ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

## 2. Cefndir / Cyd-destun

### 2.1 Cefndir / Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg ac YGC. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; gwaith dydd i ddydd yr Adran; ynghyd â'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd flwyddyn ariannol 2024/25 yng nghyd-destun rhai o'r addewidion sydd yn berthnasol i'r Adran. Mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod herio a chefnogi perfformiad diweddar, ac rwyf yn gyffredinol fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

### 2.2 Rhesymeg a Chyfiawnhad

#### 2.2.1 Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor

Mae'r prosiectau o fewn Cynllun y Cyngor 2023-28 ble mae'r Adran yn arwain arnynt wedi eu rhestru yn Atodiad 1, sef:

1. Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y Sir
2. Gweithredu ar risgiau llifogydd
3. Cymunedau Glân a Thaclus

Mae trosolwg o'r hyn sydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi ei amlygu ac o'r wybodaeth yma, fe nodwch fod yr Adran wedi gwneud cynnydd da yn erbyn prif gerrig milltir y Cynllun. Sylwer bod llithriad yng nghynnydd blaenoriaeth gwella 3, sef 'Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y Sir'. Yr ydym yn ffyddiog fod y prosiect ar y trywydd cywir a bydd y gwaith yn cael ei gyflawni'n llawn drwy fanteisio ar arian grant yn dilyn llwyddiant bid diweddar. Mae popeth arall yn mynd yn ôl y disgwyl.

Wrth edrych ar flaenoriaeth 'Cymunedau Glan a Thaclus', mae'r buddsoddiad mewn system optimeiddio cylchdeithiau yn rhan annatod o gynllun gwella'r Gwasanaeth Edrychiad Stryd. Mae disgwyl hefyd i'r buddsoddiad a'r gwaith adolygu arwain at gyfarch sefyllfa gorwariant presennol y Gwasanaeth hwnnw.

Un cynllun cyffroes sydd yn rhan o adolygiad y Gwasanaeth Edrychiad Stryd yw cyflwyniad gwasanaeth glanhawr tref sydd bellach yn llawn weithredol yn Arfon gyda'r bwriad i'w ymestyn i weddill y Sir yn fuan.

**2.2.3 Gwaith dydd i ddydd yr Adran**

Mae mesurau perfformiad yr Adran i'w gweld yng nghynnwys Atodiad 2. Fe welir bod yma 24 mesur sydd yn adlewyrchiad o wasanaethau/cyfrifoldeb yr Adran.

Mae'r mesurau yn cael eu trafod yn rheolaidd yn y cyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad a da gallu adrodd bod y ganran 83.3% o'r mesurau sydd yn y gwyrdd yn gadarnhad o'r gwaith da a nodir yn erbyn perfformiad y gwasanaethau. Fe welwch fod 16.7% wedi eu cofnodi mewn lliw ambr ac yn derbyn sylw pellach fel rhan o'r trafodaethau sydd ynghlwm a'r broses herio. Da cofnodi nad oes yr un mesur wedi ei gofnodi yn y coch. Mae'r Adran yn diweddaru'r mesurau yn rheolaidd gan adolygu os oes angen cyflwyno mesur o'r newydd er adlewyrchu unrhyw newid o fewn unrhyw wasanaeth.

Mae perfformiad y Gwasanaeth Goleuo Stryd yn adrodd gweithdrefn dda iawn wrth gofnodi bod y Gwasanaeth yn gallu ymateb i ymholiad am lamp stryd i ffwrdd o fewn cyfnod rhesymol ac o fewn ein targed o 5 dydd gwaith. Un mater sydd wedi ei amlygu yw y gall gwall fod ar ochr 'Scottish Power' ac o ganlyniad maent yn gallu cymryd rhai dyddiau i ymateb. Mae trafodaeth yn digwydd gyda hwy er ymgeisio gwell cyfathrebu mewn achosion o'r fath. Fe weler hefyd bod y Gwasanaeth yn edrych ar fesur o'r newydd mewn perthynas â gwaith archwilio cyflwr colofnau lampau stryd ac a fydd yn dda i'w gynnwys fel rhan o'r broses.

Wrth edrych ar waith y Gwasanaeth Fflyd fe weler mesur ar ddefnydd tanwydd. Tra mae newid i'w weld yma ers cyflwyno cerbydau allyriadau isel (trydan), wrth edrych dros y flwyddyn gyfan, mae cynnydd bychan wedi ei nodi yn erbyn y cyfanswm o danwydd sydd wedi ei ddefnyddio. Bydd gwaith pellach ei angen yma er amlygu be sydd wrth wraidd hyn.

Cafwyd blwyddyn ragorol o waith drwy'r Gwasanaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) ac mae hyn i'w longyfarch wrth weld arbenigedd y timau o fewn y Gwasanaeth yn cyflawni prosiectau o'r safon uchaf sydd yn gyfuniad o waith adrannau mewnol, i'r Asiantaeth Cefnffyrdd, Llywodraeth Cymru a sawl Awdurdod arall hyd a lled Cymru. Wrth edrych yn fanylach ar waith y Gwasanaeth Llifogydd mae cynnydd da wedi ei gwblhau gyda'r Strategaeth Llifogydd ynghyd a sawl prosiect gwella lle bu llwyddiant gyda denu arian grant, gan weld buddsoddiad yn ein strwythurau arfordirol a mewndirol.

**2.2.4 Adroddiadau Archwilwyr Allanol**

Ni fu unrhyw archwiliad allanol yn ystod 2024/35

**2.2.5 Cynllun Arbedion a Thoriadau**

Cyfanswm cynlluniau Arbedion 2024-25 yw £419,500. Mae'r Adran wedi, neu ar drac, i gyflawni gwerth £278.5k gyda gwerth 141k yn llithro neu bod risg o beidio gallu gwireddu.

## 3. Ymgynghori

Mae'r adroddiad wedi ei chreu ar sail gwybodaeth a gyflwynwyd i gyfarfod diweddaraf herio a chefnogi perfformiad yr Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC, gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Pennaeth Adran, Rheolwyr gwasanaeth a minnau yn bresennol yn y cyfarfod.

**Atodiadau**

**Atodiad 1:** Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor
**Atodiad 2:** Mesuryddion Perfformiad yr Adran

Atodiad 1

# Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 2

## Gwynedd Yfory: Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc

| Adran | Prosiect | Beth ydym am ei gyflawni yn ystod yr AIL flwyddyn 2024-25 (cerrig milltir): | Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma (nodwch y dyddiad) | Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau / yn debygol o'i dderbyn diwedd y flwyddyn chwblhau ariannol (Ydi / Nac Ydi) |
|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd, Peirianneg a YGC** | **Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir** | 1. Adnabod y caeau chwarae delwedd uchel gan adolygu stoc y gwasanaeth.<br><br>2. Darparu rhaglen waith ar sail blaenoriaeth fydd yn gysylltiedig â'r bid ariannu. Gweithredu ar y rhaglen waith yn rannol (yn ddibynnol ar llwyddiant y bid ariannol)<br><br>3. Ail-ymweld â trefniadau cydweithio gyda partneriaid drwy gefnogi partneriaethau i fanteisio ar unrhyw gyfleon grant | 1. Bydd ein tîm yn adolygu'r stoc gan amlygu'r caeau chwarae delwedd uchel er ystyried cynllun gweithredu.<br><br>2. Ni fu ein bid am arian dderbyn cefnogaeth. Wedi cwblhau rhan 1 uchod byddwn yn gweithredu ar gynllun i wneud y gorau o'r arian refeniw er cyflwyno gwelliant. Mae'r egwyddor yma yn cael ei ddilyn ar hyn o bryd.<br><br>3. Mae'r gwaith yma yn parhau a byddwn yn gweithredu ar unrhyw gyfle fel yma sydd yn dod i'n sylw. Mae'r enghreifftiau canlynol yn cadarnhau yr hyn | 1. YDI<br><br>2. YDI<br><br>3. YDI |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | sydd yn cael ei weithredu arno ar hyn o bryd:<br><br>• Bangor- Cae Chwarae Maes Tryfan<br>• Prosiect Cymunedol Gardd Cae Doctor<br>• Trafodaethau parhaus gyda Cyngor Dinas Bangor am leoliadau eraill o fewn y ddinas | |

## <u>Gwynedd Werdd:</u> Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

| **Adran** | **Prosiect** | **Beth ydym am ei gyflawni yn ystod yr AIL flwyddyn 2024-25 (cerrig milltir):** | **Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma** (nodwch y dyddiad) | **Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau / yn debygol o'i dderbyn diwedd y flwyddyn chwblhau ariannol** (Ydi / Nac Ydi) |
|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd, Peirianneg a YGC** | **Gweithredu ar risgiau llifogydd** | 1. Cwblhau y Strategaeth Llifogydd Lleol. | 1. Strategaeth Llifogydd Lleol wedi ei gwblhau ac wedi ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor. Ers hyn, cyflwynwyd yr un adroddiad i sylw Llywodraeth Cymru ac nid ydym wedi derbyn unrhyw gynigion o | 1. YDI |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 2. Ffurfio a chynnal trefn o ymgysylltu ar y gynnwys y strategaeth gyda thrigolion a rhanddeiliaid perthnasol.<br><br>3. Ymgorffori neu cyfarch unrhyw adborth ble yn bosib.<br><br>4. Mabwysiadu'r strategaeth a chyflwyno'r ddogfen i Llywodraeth Cymru yn unol â'r gofyn | welliant i'r cynnwys hyd yma.<br>2. Rydym bellach yn cwrdd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyson i drafod ein strategaeth ynghyd materion eraill.<br><br>3. Mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno adroddiad i'r Tîm Arweinyddiaeth ac wrthi'n paratoi rhaglen weithredu ar sail yr arweiniad a gafwyd.<br><br>4. Rydym yn disgwyl adborth terfynol gan Llywodraeth Cymru. | 2. YDI<br><br>3. YDI<br><br>4. YDI |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd, Peirianneg ac YGC** | **Cymunedau Glân a Thaclus** | 1. Cynnal lansiad ffurfiol o'r Gwasanaeth 'Edrychiad Stryd' er mwyn hysbysu'r staff a'r aelodau lleol o'r datblygiad yma. | 1. Mae lansiad o'r gwasanaeth eisoes wedi cymryd lle. Rydym wedi gweld unedau o fewn y gwasanaeth yn plethu a chyd-weithio ers y newid sy'n dangos gwerth yr ail-strwythuro o dan Rheolwr newydd 'Edrychiad Stryd' | 1. YDI |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 2. Cyflwyno system optimeiddio cylchdeithiau fydd yn sicrhau cylchdeithiau glanhau gwasanaethau biniau stryd effeithiol ac effeithlon. Mae'r buddsoddiad yma yn gysylltiedig â'r targedau toriadau/arbedion a'r sefyllfa gorwariant. Felly, bydd disgwyliad i'r system gyfarch y sefyllfa yn rannol yn ystod y flwyddyn ariannol 24/25. | 2. Mae system Bartec wedi ei bwrcasu bellach ac mae amlinelliad clir o waith y prosiect wedi ei rannu gyda'r grŵp tasg. Cawsom sgwrs cychwynnol gyda'r cwmni ar y 07/01/25 ac mae cyfarfodydd wedi eu trefnu fesul pythefnos gyda'r Rheolwr Prosiect a'r grŵp tasg. | 2. YNDI |
| | | 3. Cyflwyno glanhawyr trefi 'dyn a chart' yng Nghaernarfon a Bangor fel rhan o'r Gwasanaeth Glanhau Strydoedd. | 3. Drwy'r bid ariannol mewnol rydym wedi penodi Glanhawyr Tref ym Mangor a Chaernarfon sy'n weledol i'r cyhoedd ac yn cadw'r ardaloedd yn lan ac yn daclus gyda ysgubwr trydan a chart. | 3. YNDI |
| | | 4. Cryfhau perthnasau'r Timau Tacluso drwy gyd-weithio gyda mudiadau/cymunedau lleol gan roi sylw penodol i ardaloedd agored cyhoeddus. | 4. Mae'r Timau Tacluso yn parhau i gydweithio gyd mudiadau/cymunedau lleol. Enghraifft diweddar cawsom oedd cais gan y gymuned yn Blaenau Ffestiniog i dacluso ardal ger y murlun newydd sydd wedi ei osod yno. | 4. YNDI |







# ATODIAD 1- HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD

---------------------------------------

# PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YMGYNGHORIAETH GWYNEDD









# Herio a Chefnogi Perfformiad PP/YGC

Cyfnod Amser: 01 Mai 2025

24
Mesuryddion

Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd

Gwasanaeth Goleuo Stryd

Gwasanaeth Fflyd

Gwasanaeth Edrychiad Stryd/Cynnal Tiroedd

Gwasanaeth Bwrdeistrefol/Profedigaeth

Targedau Ariannol YGC+Adeiladu/Bodlonrwydd Cwsmer YGC

Gwasanaeth Dwr ac Amgylchedd

Cynnal Strwythurau/Pontydd/Technegol

| 0% | 16.7% | 83.3% |
|---|---|---|
| % Coch | % Amber | % Gwyrdd |

**Cynnal Priffyrdd**

Nifer o ddiffygion critigol a diogelwch

01

**Cynnal Priffyrdd**

Nifer o gwynion twll mewn ffordd

02

**Gwasanaeth Goleuo**

Nifer o ddiwrnodau ar gyfartaledd i atgyweirio lampau stryd

03

**Gwasanaeth Goleuo**

Defnydd Egni

04

**Gwasanaeth Goleuo**

Rhaglen Archwilio

05

**Rheolaeth Fflyd**

Cyfanswm Fflyd y Cyngor

06

**Rheolaeth Fflyd**

Nifer o gerbydau trydan

07

**Rheolaeth Fflyd**

Defnydd tanwydd

08

**Rheolaeth Fflyd**

Amser ymateb i geisiadau

09

**Cynllun Fflyd Werdd**

Rhaglen Pwyntiau Gwefru

10

**Gwasanaethau Stryd**

Cwynion tipio anghyfreithlon

11

**Gwasanaethau Stryd**

Cwynion baw cŵn

12

Yn ôl i'r agenda

**Gwasanaethau Stryd**

Nifer o Hysbysiadau Cosb Benodedig

13

**Gwasanaethau Stryd**

Nifer o Hysbysiadau Cosb Benodedig Cenedlaethol

14

**Tîm Tacluso 'Ardal Ni'**

15

**Toiledau Cyhoeddus**

Nifer o gwynion

16

**Toiledau Cyhoeddus**

Math o gwynion

17

**Cwrdd â tharged ariannol YGC gyfan**

18

**Cwrdd â tharged ariannol yr Uned Adeiladu YGC**

19

**Bodlonrwydd Cwsmer Cyfunol**

20

**Rhaglen Archwilio Asedau Rheoli Risg Llifogydd**

21

**Nifer o ddyddiau a gymerwyd ar gyfartaledd i gwblhau cais (SDC)**

22

**Cynlluniau Llifogydd**


23


**Cynnal Strwythurau/ Pontydd**

24

Yn ôl i'r agenda

# Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd (Cyflwr Ffyrdd)




**Rheolwr Cyfrifol:**

Gareth Roberts (Peiriannydd Ardal Dwyfor)

**PP-01**

**Pwrpas y gwasanaeth:**

Galluogi'r cyhoedd i deithio ar ffyrdd Gwynedd yn ddiogel ac yn ddirwystr

**Trosolwg o berfformiad:**

**Diffyg Critigol:** Ymateb i'r math yma i ddiffyg yw o fewn 2 awr.
**Diffyg Diogelwch**: Ymateb cyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf.


Welir fod y nifer o diffygion critigol misol yn y ffigyrau sengl ac oddeutu degfed o'r nifer ar gyfer diffygion diogelwch. O ganlyniad i'r nifer isel, mi all achosion o dywydd garw, damweiniau, amser archwiliadau a ffactorau eraill cael effaith arwyddocaol ar y nifer o Diffygion Critigol misol. Fodd bynnag, ar y cyfan mae'r niferoedd yn gyson dros y cyfnod adrodd.


Mae'r niferoedd o ddiffygion diogelwch a welir dros y cyfnod adrodd hefyd yn eithaf cyson i phob ardal, gydag amrywiaeth tymhorol fel a ddisgwylir yn amlwg. Fe welwn cynnydd yn y niferoedd ar ddiwedd y gaeaf fel gwelir effaith tywydd garw a gostyngiad tymheredd, a gostyngiad ar draw yr haf gyda lleihad effaith y ffactorau yma.

Mae canran uchel o rhwydwaith ardal Meirionnydd yn rhan o'r rhwydwaith cefnffyrdd, ac mae hynny'n egluro'r rheswm am y nifer llai o ddiffygion mewn cymhariaeth I'r ddwy ardal arall.

Yn ôl i'r dashfwrdd

# Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd (Cyflwr Ffyrdd)




Yn ôl i'r dashfwrdd

**Rheolwyr Cyfrifol:**

Adrian Wyn Williams (Peiriannydd Ardal Meirionnydd)


**PP-02**
**Pwrpas y gwasanaeth:**

Galluogi'r cyhoedd i deithio ar ffyrdd Gwynedd yn ddiogel ac yn ddirwystr

**Trosolwg o berfformiad:**

- Mae'r graff llinell yn cymharu'r niferoedd o alwadau sydd wedi ei derbyn dros y flwyddyn diwethaf. Mae dangos fod galwadau Mawrth/Ebrill 2025 yn llai na'r ddwy flynedd flaenorol.
- Mae'r graff hefyd yn adrodd fod y cwsmer wedi derbyn ymateb mewn 3.75 diwrnod ac mae cyfartaledd cwblhau ymholiad o fewn 5.09 diwrnod.
- Mae hyn yn tua 1.5 diwrnod yn well na beth adroddwyd yn ein cyfarfod diwethaf.
- Wrth gymharu'r amser ymateb i'r un cyfnod y llynedd mae gwelliant ym mherfformiad y gwasanaeth.
- Credwn fod hyn i lawr i'r newid wnaethom yn FFOS drwy ofyn am fwy o wybodaeth gan y cwsmer fel y gallwn ymateb yn sydyn.
- Mae'r 'problemau ar wyneb y ffordd' yn gallu amrywio o tyllau, ddŵr ar wyneb i ysbwriel ar y ffyrdd ayyb. O'r 60% o alwadau ynglŷn twll mewn ffordd, nid oes gweithred i pob ymholiad oherwydd nid yw pob un yn cyrraedd y trothwy sydd angen sylw.
- Mae'r map gwres o Power BI yn dangos lleoliadau'r ymholiadau rhwng 1 Ionawr a 30 Ebrill 2025.

# Gwasanaeth Goleuo Stryd






**Rheolwr Cyfrifol:**
Colin Worth (Rheolwr Gwasanaeth Goleuo)

**PP-03**

**Pwrpas y gwasanaeth:**
Darpariaeth o oleuadau stryd/arwyddion wedi eu goleuo ar rwydwaith ffyrdd, llwybrau a mannau cyhoeddus y Sir.

**Trosolwg o berfformiad:**
Eleni, fe welwn fod yr amser ar gyfartaledd i atgyweirio lampau stryd yn 2.5 diwrnod.

Roedd yr amser ymateb yn uwch ym mis Tachwedd oherwydd gwaith nos ar yr A55 ym mis Tachwedd ac roedd un trydanwr i ffwrdd yn sâl.

Yn ôl i'r dashfwrdd

# Gwasanaeth Goleuo Stryd

**Rheolwr Cyfrifol:**

Colin Worth (Rheolwr Gwasanaeth Goleuo)

**PP-04**

**Pwrpas y gwasanaeth:**


Darpariaeth o oleuadau stryd ar rwydwaith ffyrdd, llwybrau a mannau cyhoeddus y Sir.

**Trosolwg o berfformiad:**

Defnydd egni goleuadau stryd ac arwyddion ffyrdd yn eithaf sefydlog fel y disgwylir yn y cyfnod dan sylw. Mi fydd y defnydd yn codi o'r adeg yma dros gyfnod y gaeaf fel arfer.

Ers mabwysiadu yr cyn gefnffordd mae nifer sylweddol o asedau goleuo stryd wedi trosglwyddo i ein meddiant.

## Defnydd Egni Lampau Stryd (KWH)



| | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022/23 | 182,690 | 152,259 | 126,315 | 137,429 | 154,355 | 185,770 | 229,802 | 258,011 | 286,636 | 276,195 | 220,902 | 221,457 |
| 2023/24 | 178,809 | 149,513 | 125,866 | 138,695 | 169,399 | 202,067 | 250,774 | 280,377 | 311,857 | 300,531 | 248,395 | 248,395 |
| 2024/25 | 176,760 | 147,845 | 125,095 | 137,518 | 163,319 | 193,361 | 239,150 | 266,697 | 292,786 | 293,070 | 237,254 | 220294.05 |
| 2025/26 | 174,989 | | | | | | | | | | | |

2022/23 2023/24 2024/25 2025/26

Yn ôl i'r dashfwrdd

# Gwasanaeth Goleuo Stryd

**Rheolwr Cyfrifol:**

Colin Worth (Rheolwr Gwasanaeth Goleuo)

**PP-05**


**<u>Pwrpas y gwasanaeth:</u>**


Darpariaeth o oleuadau stryd ar rwydwaith ffyrdd, llwybrau a mannau cyhoeddus y Sir.

**<u>Trosolwg o berfformiad:</u>**

DRAFFT: Datblygiad Mesur o'r newydd i'r Gwasanaeth Goleuo

*eglurder i'w rannu yn y cyfarfod*




Yn ôl i'r dashfwrdd

# Gwasanaeth Fflyd

**PP-06**

**Rheolwr Cyfrifol:**

Kev Sheret (Rheolwr Fflyd)

**Pwrpas y gwasanaeth:**
Mae fflyd y Cyngor yn cynorthwyo adrannau'r Cyngor i ddarparu ystod eang o wasanaethau i drigolion Gwynedd o gasglu gwastraff i gynnal priffyrdd a chludo disgyblion.


**Trosolwg o berfformiad:**

Mesur newydd i roi chyd-destun ar sefyllfa fflyd y Cyngor yn ei gyfanrwydd, yn bennaf wrth ystyried oblygiadau ariannol i adnewyddu y cerbydau. Gellir rannu y gwybodaeth yma ymhellach.

- 529 o gerbydau ar Fflyd y Cyngor, gyda 73.35% wedi ei osod ar gynlluniau ariannu i'r dyfodol.
- Gwelir bod 57 (10.78%) yn cael ei hunan gyllido o fewn gwasanaethau.
- 38 (7.18%) o gerbydau yn parhau ar y Fflyd er bod cerbyd newydd wedi ei ddarparu
- 46 (8.70%) o gerbydau wedi ei hurio gan wasanaethau'r Cyngor



Yn ôl i'r dashfwrdd




| Adran | Cyfanswm | Wedi ariannu | Heb ariannu | Adnewyddu | Hurio |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 37 | 7 | 29 | 1 | |
| Amgylchedd | 142 | 106 | 3 | 14 | 19 |
| Cyllid | 6 | | 4 | 1 | 1 |
| Economi | 13 | 9 | 4 | | |
| Oedolion | 35 | 30 | 5 | | |
| Plant | 23 | 16 | 4 | 3 | |
| Priffyrdd | 243 | 196 | 7 | 14 | 26 |
| Tai | 30 | 24 | 1 | 5 | |
| Cyfanswm | 529 | 388 | 57 | 38 | 46 |

# Cynllun Fflyd Werdd: Nifer o Gerbydau Gwyrdd

**PP-07**

**Rheolwr Cyfrifol:**

Kev Sheret (Rheolwr Fflyd)

**Trosolwg o berfformiad:**

Mesur i ddangos ble mae'r Cyngor arni wrth symud i gerbydau gwyrdd.


CYNGOR GYFAN

- 87 (38%) o'r 231 ceir neu faniau bellach yn rhai gwyrdd (trydan neu hybrid).
- O'r 144 o gerbydau disel/petrol sydd yn weddill mae 76 ohonynt yn gerbydau sydd unai wedi adnewyddu a'i cadw ymlaen, yn rhai sydd wedi hurio neu sydd heb gynlluniau ariannu ar eu cyfer.

PRIFFYRDD, PEIRIANNEG A YGC

- Mae 34 (44%) o'r 77 ceir a faniau yn rhai gwyrdd (trydan neu hybrid).
- O'r 43 cerbyd disel neu petrol sydd yn weddill mae 27 ohonynt yn gerbydau sydd unai wedi adnewyddu a'i cadw ymlaen, yn rhai sydd wedi hurio neu sydd heb gynlluniau ariannu ar eu cyfer.






| Gwasanaeth | TRYDAN | DIESEL |
|---|---|---|
| Asedau Bwrdeistrefol | 4 | 8 |
| Priffyrdd | 6 | 10 |
| Cynnal Tiroedd | 2 | 2 |
| Gwasanaeth Fflyd | 5 | 5 |
| Gwasanaeth Goleuo | 2(hybrid) | 2 |
| Gwasanaethau Stryd | 10 | 5 |
| Gwywiad yr Onnen | | 1 |
| YGC | 5 | 3 |

Yn ôl i'r dashfwrdd

# Gwasanaeth Fflyd

**PP-08**

**Rheolwr Cyfrifol:**


Kev Sheret (Rheolwr Fflyd)

**Pwrpas y gwasanaeth:**
Mae fflyd y Cyngor yn cynorthwyo adrannau'r Cyngor i ddarparu ystod eang o wasanaethau i drigolion Gwynedd o gasglu gwastraff i gynnal priffyrdd a chludo disgyblion.

**Trosolwg o berfformiad:**

- Gwelwyd gostyngiad o 2.89% yn y nifer o litrau a ddefnyddiwyd yn ystod mis Mawrth eleni o gymharu a 2024
- Gwelwyd gostyngiad o 7.99% yn y nifer o litrau a ddefnyddiwyd yn ystod mis Ebrill eleni o gymharu a 2024.
- Wrth gymharu y 12 mis diwethaf (Mai 24 i Ebrill 25) a'r 12 mis blaenorol (Mai 23 i Ebrill 24), rydym yn cynyddiad o 0.98% yn y defnydd o danwydd.
- Er hyn, rydym yn gweld fod y nifer o litrau wedi lleihau dros y 6 mis diwethaf. Gwelwyd gostyngiad o 4.98% yn y nifer o litrau ddefnyddiwyd

## Rheolaeth Fflyd: Defnydd Tanwydd (ltr)



| | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022/23 | 133279 | 126439 | 134238.2 | 113122 | 132517 | 124201 | 128916 | 129604 | 123838 | 136814 | 126028 | 140219 |
| 2023/24 | 121894 | 136015 | 129604 | 123838 | 136814 | 126028 | 140219 | 143571.6 | 118292.3 | 158,069 | 139201.4 | 135262.5 |
| 2024/25 | 139591.1 | 148549.2 | 143262.6 | 150910.4 | 133827.5 | 130,256 | 143,968 | 130256 | 119425 | 164229 | 129,458. | 131468.1 |
| 2025/26 | 129268.2 | | | | | | | | | | | |

■ 2022/23 ■ 2023/24 ■ 2024/25 ■ 2025/26

| Mis Mawrth | Litrau | Trafodion unigol | Cerbydau/Offer |
|---|---|---|---|
| **Byncr** | 124,430.06 | 2,304 | 411 |
| **Cerdyn** | 7,038.05 | 189 | 57 |
| **Cyfanswm=** | **131,468.11** | **2,493** | **468** |
| | | | |
| **Mis Ebrill** | Litrau | Trafodion unigol | Cerbydau/Offer |
| **Byncr** | 123,745.53 | 2,312 | 383 |
| **Cerdyn** | 5,522.64 | 84 | 43 |
| **Cyfanswm=** | **129,268.17** | **2,396** | **426** |

Yn ôl i'r dashfwrdd

# Gwasanaeth Fflyd

**PP-09**

**Rheolwr Cyfrifol:**

Kev Sheret (Rheolwr Fflyd)

**Trosolwg o berfformiad:**

Mesur newydd sy'n adrodd ar berfformiad y gwasanaeth yn ymateb i amryw o geisiadau.

Mae'r rhain yn cynnwys ceisiadau am:

- Hurio cerbydau
- Mynediad i danwydd
- Ychwanegu gyrwyr i'r cofrestr
- Ceisiadau hyfforddiant
- Mynediad i systemau Fflyd

Mi ydynt yn edrych ar gwblhau rhain o fewn 1 awr o dderbyn y cais a weler o fewn y sleid yma canlyniadau ar gyfer mis Mawrth a Ebrill eleni.



| Mis | Nifer o Geisiadau | Cyfartaledd Amser Cwblhau |
|---|---|---|
| Mawrth 2025 | 15 | 00:30 |
| Ebrill 2025 | 10 | 00:29 |

Yn ôl i'r dashfwrdd

# Cynllun Fflyd Werdd: Rhaglen Pwyntiau Gwefru

**PP-10**


**Rheolwr Cyfrifol:**

Owen Rhys Jones (Rheolwr Gwasanaeth Dechnegol)

**Trosolwg o berfformiad:**

Weler yma ddiweddariad ar y rhaglen gosod pwyntiau gwefru.

Mae'r rhaglen hyd yn hyn wedi ei lunio o gwmpas archebion cerbydau fflyd presennol. Fe welwch fod 12 safle yn weithredol. Mae'r rhaglen waith wedi ei ddatblygu gan flaenoriaethu'r lleoliadau mewn glas.




**Gweithredol**

| Safle | Manylion |
|---|---|
| Llyfrgell Caernarfon | 2 x 7kw |
| Penarlâg, Dolgellau | 10 x 7kw |
| Cibyn | 10 x 7kw |
| Bloc J | 2 x 7kw |
| Ffordd y Bala, Dolgellau | 4 x 7kw |
| Ffordd y Cob, Pwllheli | 12 x 7kw |
| Glan y Don, Pwllheli | 4 x 7kw |
| Drws y Nant | 2 x 7kw |
| Penrallt, Caernarfon | 4 x 7kw |
| Canolfan y Gwystl | 2 x 7kw |
| Plas Gwilym | 2 x 7kw |
| Cwm y Glo | 2 x 7kw |

**Wedi eu blaenoriaethu**

| Safle | Manylion |
|---|---|
| Pencadlys Caernarfon | 14 x 7kw, 2 x 22kw |
| Maes Parcio Penllyn | 4 x 7kw |
| Hafod Lon, Penrhyndeudraeth | 2 x 7 kw |
| Galw Gwynedd, Penrhyndeudraeth | 1 x 50kw |

**Cynllun i'w ddatblygu**

| Safle | Manylion |
|---|---|
| Hafan, Pwllheli | 2 x 7 kw |
| Afonwen | 4 x 7 kw |
| Stuart House, Cibyn | 2 x 7 kw |
| Plas Pawb, Maesincla | 2 x 7 kw |
| Ffridd Rasus | 2 x 7 kw |

Yn ôl i'r dashfwrdd

# Gwasanaethau Stryd

**PP-11**

**Rheolwr Cyfrifol:**


Steven Edwards
(Rheolwr Gwasanaeth Edrychiad Stryd)


**Pwrpas y gwasanaeth:**
Darpariaeth o strydoedd a thiroedd cyhoeddus glan a thaclus.

**Trosolwg o berfformiad:**

Mae'r map gwres yn dangos enghraifft o'r hyn sy'n ymddangos ar y system flymapper. Mae'r Wardeiniaid Gorfodaeth yn ei ddefnyddio fel sail i'w rhaglen waith.

Mae'r nifer o achosion eleni yn parhau yn gymharol is na niferoedd y llynedd.




Yn ôl i'r dashfwrdd

# Gwasanaethau Stryd

**PP-12**
**Rheolwr Cyfrifol:**
Steven Edwards
(Rheolwr Gwasanaeth Edrychiad Stryd)


**Pwrpas y gwasanaeth:**
Darpariaeth o strydoedd a thiroedd cyhoeddus glan a thaclus.

**Trosolwg o berfformiad:**

Fe welwch o’r graff fod y nifer o ymholiadau/cwynion Baw Cŵn yn is ar y cyfan i’w gymharu â’r un cyfnod llynedd.

Mae’r gwahaniaeth yn seiliedig ar effaith yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth benodol i gyfnod y gaeaf, mewnbwn Gorfodaeth a Glanhau Strydoedd.

Mae’n bwysig nodi mai dim ond elfen o’r cwynion yma sy’n ymwneud â achosion o faw cŵn. Mae’r elfennau eraill yn ymwneud â gorfodaeth, biniau baw cŵn a adnewyddu biniau.




Yn ôl i’r dashfwrdd

# Gwasanaethau Stryd

**PP-13**
**Rheolwr Cyfrifol:**
Steven Edwards
(Rheolwr Gwasanaeth Edrychiad Stryd)


**Pwrpas y gwasanaeth:**
Darpariaeth o strydoedd a thiroedd cyhoeddus glan a thaclus.


**Trosolwg o berfformiad:**

Weler yma fod y nifer o hysbysiadau cosb benodedig wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae hyn i lawr i berchnogaeth y Swyddogion Gorfodaeth sy’n frwdfrydig yn eu rôl er sicrhau gwellhad yn edrychiad ein amgylchedd.

Mae’r tîm yn rhagweithiol iawn yn delio gyda chwynion ac ymholiadau sydd yn cael eu derbyn drwy’r drefn FFOS gan sicrhau archwiliadau amserol i’r digwyddiadau.




| Hysbysiadau Cosb Benodedig | Niferoedd o HCB Blwyddyn 2023-2024 | Niferoedd o HCB Blwyddyn 2024-2025 |
|---|---|---|
| Tipio | **21 HCB**<br>12 wedi talu<br>8 wedi canslo<br>1 achos llys | **45 HCB**<br>30 wedi talu<br>14 wedi canslo<br>1 achos llys |
| Cwn | **29 HCB**<br>23 wedi talu<br>1 achos llys<br>5 wedi canslo | **20 HCB**<br>14 wedi talu<br>5 wedi canslo<br>1 achos llys |
| Sbwriel | **16 HCB**<br>12 wedi talu<br>4 wedi canslo | **46 HCB**<br>35 wedi talu<br>1 heb talu<br>10 wedi canslo |
| Dogfennau Gwastraff | **1 HCB** (wedi canslo) | **8 HCB**<br>6 wedi talu<br>2 wedi canslo |

Yn ôl i’r dashfwrdd

# Gwasanaethau Stryd


**PP-14**
**Rheolwr Cyfrifol:**
Steven Edwards
(Rheolwr Gwasanaeth Edrychiad Stryd)

**Pwrpas y gwasanaeth:**
Darpariaeth o strydoedd a thiroedd cyhoeddus glan a thaclus.

**Trosolwg o berfformiad:**

Dyma gymhariaeth cenedlaethol o'r nifer o hysbysiadau cosb penodedig a ddyroddwyd yn ystod 2022/23.

Ers 2022/23 fe welwch ein bod wedi cynyddu ar y niferoedd o hysbysiadau cosb penodedig.




Yn ôl i'r dashfwrdd

Tîm Tacluso ArdalNi

[Tîm Tacluso 'Ardal Ni' (sharepoint.com)]

**PP-15**

**Rheolwr Cyfrifol:**


Steven Edwards (Rheolwr Gwasanaeth Edrychiad Stryd)


**Pwrpas y gwasanaeth:**

- Hwyluso gwelliannau ffisegol i'r amgylchedd adeiledig oddi fewn i ac yng nghyffiniau trefi a phentrefi yng Ngwynedd, trwy ganolbwyntio ar lefydd agored cyhoeddus, e.e. ffyrdd, strydoedd, parciau, promenadau, a.y.b.
- Hybu perchnogaeth leol a datblygu ymdeimlad o falchder bro drwy weithio ar lefel cymunedol wrth fagu perthnasau â grwpiau/mudiadau lleol, gwirfoddolwyr a'r trydydd sector.


**Trosolwg o berfformiad:**


Fe welwch o'r graff fod y nifer o geisiadau am waith i'r timau tacluso wedi cynyddu yn sylweddol eleni. Mae hyn am nifer o resymau gwahanol, ond gallwn gadarnhau fod capasiti y timau yn dygymod a'r cynnydd yma.




Yn ôl i'r dashfwrdd






# Gwasanaeth Toiledau Cyhoeddus


**PP-16**
**<u>Rheolwr Cyfrifol:</u>** Amanda Murray (Rheolwr Asedau Bwrdeistrefol)

**Pwrpas y gwasanaeth:**
Darparu cyfleusterau glan a diogel i drigolion/ymwelwyr Gwynedd (61 o safleoedd).

**<u>Trosolwg o berfformiad:</u>**

Mae'r perfformiad wastad yn well amser yma o'r flwyddyn oherwydd gostyngiad yn y niferoedd o ymwelwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Ond wrth ddweud hynny mae'r cymhariaeth fesul ardal yn un ydym yn ceisio taclo, mae ardal Dwyfor wastad wedi perfformio yn is na'r ddau ardal arall oherwydd y niferoedd o doiledau ar traethau'r Sir. Mae'r lefel o ddefnydd wastad yn uwch na'r toiledau yn cefn gwlad. Mae'r Gwasanaeth yn ymdrechu i wella'r perfformiad yn ystod y tymor tawel wrth ymgymryd â gwaith angenrheidiol i'r toiledau ar y traethau ac i drefnu glanhau dwfn.

Yn ôl i'r dashfwrdd




# Gwasanaeth Toiledau Cyhoeddus

**PP-17**
**Rheolwr Cyfrifol:** Amanda Murray (Rheolwr Asedau Bwrdeistrefol)

**Pwrpas y gwasanaeth:**
Darparu cyfleusterau glan a diogel i drigolion/ymwelwyr Gwynedd.

**Trosolwg o berfformiad:**

Mae'r Gwasanaeth dal i ymdrechu i wella safon y glendid ond mae'n gallu bod yn anodd cael y balans o ran y defnydd mewn rhai toiledau prysura'r sir o ran yr amlder glanhau ac ail-gyflenwi deunyddiau. Ydym yn y broses o adolygu'r oriau agor ac ail strwythuro ac edrych ar cytundebau staff sy'n hollol ddibynnol ar y lefel o adnoddau o fewn y gwasanaeth.

Yn ôl i'r dashfwrdd


# Cwrdd â tharged ariannol YGC gyfan

**PP/YGC-18**
**Rheolwr Cyfrifol: - Rhys Wynn Williams**

**Pwrpas y Gwasanaeth:**
Cynnal gwasanaeth o safon uchel i Gwsmeriaid YGC sydd yn gystadleuol ac yn cwrdd â gofynion y cwsmer i alluogi YGC i gyrraedd y targed incwm blynyddol.

**Trosolwg o Berfformiad:**

- Targed 2024-25 oedd £7.9 miliwn.
- Canlyniad diwedd y flwyddyn 2024-25 yw £234K dros y targed.
- Mae proffil y gwaith sydd wedi ei raglennu at eleni yn gyson gyda phroffiliau'r blynyddoedd blaenorol.
- Ar hyn o bryd mae gwaith digonol ar gael gan ein prif cleientiaid am weddill y flwyddyn. Yn ogystal, rydym yn parhau i ddarganfod a ennill ffrydiau gwaith newydd.
- Ar hyn o bryd ni weler risg o beidio â chyrraedd ein targed.




| | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Mawrth (Mis 13) Terfynol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022-23 | £18,655 | £75,640 | £47,163 | £24,140 | £68,764 | £68,954 | £65,574 | £60,639 | £10,868 | £65,272 | £96,792 | £72,909 |
| 2023-24 | -£38,314 | -£38,314 | -£15,720 | -£16,172 | £6,091 | £8,023 | £9,603 | £29,053 | £121,435 | £163,655 | £108,824 | £68,149 |
| 2024-25 | | -£108,959 | -£69,999 | -£33,290 | -£49,072 | £10,100 | £19,904 | £13,640 | £76,346 | £111,243 | £125,210 | £233,746 |

*Blynyddoedd / Misoedd*

2022-23 2023-24 2024-25

Yn ôl i'r dashfwrdd

# Cwrdd â tharged ariannol yr Uned Adeiladu YGC

**YGC-19**


**Rheolwr Cyfrifol: - Gareth Wright**

**Pwrpas y Gwasanaeth:**

Cynnal gwasanaeth o safon uchel i Gwsmeriaid Uned Adeiladu YGC sydd yn gystadleuol ac yn cwrdd a gofynion y cwsmer i alluogi’r Gwasanaeth i gyrraedd y targed incwm blynyddol.

**Trosolwg o Berfformiad:**

Mae perfformiad y timau yn dda ar eu prosiectau ond mae risg wedi ei hadnabod eisoes yn dilyn gostyngiad yn rhaglen waith Cynnal a C hadw yr Adran Eiddo. Mae'r bwlch yn y tymor byr wedi ei lenwi yn bennaf gyda gwaith 'Cyflwr ac Addasrwydd Ysgolion' gan yr Adran E iddo/Addysg ond bydd angen rhoi cynlluniau hir dymor mewn lle w rth ymgynghori gyda'r Adran Tai ac Eiddo. Fydd hyn yn allweddol wrth ddatblygu Cynllun Busnes YGC.
Cyfarfod buddiol gyda'r Adran Tai ac Eiddo wedi ei gynnal yn ddiweddar lle bu trafod gwaith ar y gorwel os ydynt yn llwyddiannus gyda'u ceisiadau am arian maen't wedi cyflwyno.
Targed 2024-25 oedd £758K.





| | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Mawrth (Mis 13) Terfynol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022-23 | -£6,871 | -£6,875 | -£6,901 | -£6,083 | -£5,967 | -£2,386 | -£668 | -£501 | £7,423 | £6,231 | £11,233 | £19,198 |
| 2023-24 | -£56,268 | -£14,360 | -£31,157 | -£30,784 | -£68,828 | £14,334 | £14,563 | £11,417 | £12,444 | £13,506 | £14,852 | £13,142 |
| 2024-25 | | -£28,890 | -£30,000 | -£24,744 | -£25,032 | -£24,495 | -£25,542 | -£25,809 | -£6,354 | £224 | £1,194 | -£1,551 |

Yn ôl i’r dashfwrdd

# Bodlonrwydd Cwsmer YGC Cyfunol

**YGC-20**
**Pwrpas:**
Cynnal gwasanaeth o safon uchel i Gwsmeriaid a Chleientiaid YGC sydd yn gystadleuol ac yn cwrdd a'i gofynion.




| Maes | Trosolwg ar berfformiad |
|---|---|
| NMWTRA | 17 Cynllun newydd wedi agor ers mis Ebrill. |
| Sifil | Dim sylw newydd. |
| TaE | Dim sylw newydd. |
| SuDS | Dim sylw newydd. |

Yn ôl i'r dashfwrdd

# Rhaglen Archwilio a Cynnal a Chadw Asedau (Rheoli Risg Llifogydd)

YGC-21

Rheolwyr Cyfrifol: - Rob Williams

Pwrpas y Gwasanaeth:

Cynnal Rhaglen Cynnal a Chadw Asedau Arfordirol a Mewndirol y Sir mewn modd diogel ac amserol er mwyn lleihau risg llifogydd i trigolion Gwynedd. Mae 299 o asedau o dan rheolaeth y gwasanaeth sydd yn cynnwys 21km o asedau arfordirol

Trosolwg o berfformiad:

Rydym wrth yn cwblhau archwiliadau 2025 a mae'r wybodaeth isod yn crynhoi canlyniadau hyd yn hyn. Bydd yr holl archwiliadau wedi eu cwblhau erbyn ddiwedd y mis ac yn fuan wedyn bydd rhaglen waith cynnal a chadw wedi ei pharatoi. Bydd y wybodaeth a gyflwynir yn y cyfarfodydd nesaf yn dangos cynydd yn erbyn rhaglen waith yma.

| Cyflwr ased* | Nifer asedau | Rhaglen Refeniw | Rhaglen Cyfalaf | Dim Gweithred Bresennol |
|---|---|---|---|---|
| **5** | 25** | - | 23 | - |
| **4** | 10 | - | 3 | - |
| **3** | 80 | - | 4 | - |
| **2** | 69 | - | 0 | - |
| **1** | 6 | - | 0 | - |

* Derbyniol = 3 ac i lawr

**Cynnwys 16 groyne Bermo  sydd ddim ar raglan archwilio archwilio 2025



Yn ôl i'r dashfwrdd

# Nifer o ddyddiau a gymerwyd ar gyfartaledd i gwblhau cais Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC)

**YGC-22**


**Rheolwyr Cyfrifol: - Rob Williams**

**Pwrpas y Gwasanaeth:**

Adolygu ceisiadau SDS yn amserol, a sicrhau bod datblygiadau arfaethedig yn cwrdd a rheoliadau Llywodraeth Cymru. Amser statudol i cymeradwyon y cais wedi ei ddilysu yw 7 wythnos neu 49 diwrnod.

**Trosolwg o Berfformiad:**

- Mae 3 cais penodol wedi achosi i'r uchafswm o ddyddiau penderfynu cais, ac felly y cyfartaledd, i gynyddu yn ystod mis Ionawr a Chwefror. Ym mhob achos roedd amser sylweddol wedi mynd heibio, yn dilyn yr adolygiad cychwynnol, cyn i ddogfennau neu wybodaeth diwygiedig gael ei gyflwyno - fel fod yr cais yn gallu cael ei benderfynu.
- Mae ymarfer gweithio wedi eu newid ers hyn, i sicrhau fod ceisiadau yn cael eu gwrthod, os nad yw gwybodaeth ychwanegol yn cael ei gyflwyno o fewn yr amserlen a gytunwyd.




Yn ôl i'r dashfwrdd




**Gwaith draenio yn Gerddi Traphont**

# Cynlluniau Llifogydd

**Pwrpas y rhaglen waith ydi leihau risg llifogydd yn Gwynedd, yn ychwanegol i uwchraddio asedau bresennol.**

## Trosolwg Berfformiad

- Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith ar gynllun Hirael bellach wedi’i gwblhau. Fodd bynnag, mae rhai elfennau yn parhau i fod yn amodol ar gwblhau prosiect cysylltiedig gan Dŵr Cymru.
- Mae'r gwaith draenio bron â dod i ben, ac ar hyn o bryd mae'r contractwr yn canolbwyntio ar osod y peiliau. Disgwylir i'r holl waith gael ei gwblhau erbyn gwanwyn 2026.
- Yn Abermaw, mae'r gwaith dylunio manwl ar gyfer Promenâd y Gogledd yn parhau ar y trywydd iawn ac yn symud yn unol â’r rhaglen. Mae model ffisegol o’r cynllun wedi’i adeiladu yn Imperial Coleg Llundain, a bydd yn cael ei ddefnyddio i asesu unrhyw newidiadau posibl i'r risg llifogydd yn sgil ein gwaith. Disgwylir i'r cam dylunio manwl gymryd tua dwy flynedd i'w gwblhau.

Yn ôl i’r dashfwrdd

# Gwasanaeth Cynnal a Chadw Strwythurau

**YGC-**
**Rheolwr Cyfrifol: Owen Rhys Jones (Rheolwr Gwasanaeth Dechengol)**

**Pwrpas y Gwasanaeth:**

Cynnal raglen archwilio ac chynnal pontydd ac waliau cynnal ar y rhwydwaith ffyrdd Gwynedd. Rydym yn archwilio oddeutu 631 o bontydd dros rhaglen o 2 flynedd.

**Trosolwg o Berfformiad:**


Mae'r dashfwrdd cyflwr stoc, dangosydd scor BCI, a ddngosir yma yn ystyried holl elfennau'r strwythur. Mae'r sgôr hwn yn cynnwys data o arolwg fwyaf diweddaraf ar ein pontydd. Ystyrir bod strwythur mewn cyflwr boddhaol os yw'r sgôr BCI yn fwy na 65.

Y 'BCI Average' yw sgôr cyfartaledd bob elfen o'r strwythur

Y 'BCI Critical' yw sgôr cyfartaledd o'r elfennau strwythurol yn unig

Fel y gwelir, ar y cyfan mae stoc strwythurau Gwynedd yn eithaf da, ond mae gennym sgôr llai na 65 ar ambell elfen o strwythurau. Bydd adolygiad o'r holl strwythurau hyn yn cael ei gynnal gan beiriannydd a bydd unrhyw pryder sy'n codi yn derbyn asesiad arbennig, a gwaith adfer priodol yn y tymor byr. Ar gyfer strwythurau a materion mwy bydd y strwythurau'n cael eu rheoli o dan y safon ar gyfer rheoli strwythurau is-safonol hyd nes fod datrysiad yn bosib.






| Math o Strwythur | BCI Cyfartaledd | BCI Critigol | BCI Cyfyniad | Cyflwr Ased |
|---|---|---|---|---|
| Pont | 85 | 75 | 81 | 80 |
| Cwlfert | 88 | 78 | 84 | 85 |
| Pont Droed | 84 | 70 | 78 | 78 |
| Wall Gynnal | 80 | 60 | 72 | 70 |

Yn ôl i'r dashfwrdd

# Gwasanaeth Cynnal a Chadw Strwythurau


**YGC-**
**Rheolwr Cyfrifol: Owen Rhys Jones (Rheolwr Gwasanaeth Dechengol)**


**Pwrpas y Gwasanaeth:**

Cynnal raglen archwilio ac chynnal pontydd ac waliau cynnal ar y rhwydwaith ffyrdd Gwynedd. Rydym yn archwilio oddeutu 631 o bontydd dros rhaglen o 2 flynedd.

**Trosolwg o Berfformiad:**

Fel a weli'r o'r graffiau , mae canran uchaf o'r stoc mewn cyflwr boddhaol, ac yn rhoi toriad o'r canran yn y categorïau cofnodi.




| Categori | Canran |
|---|---|
| Cyflwr Da | 87 |
| Cyflwr Gwael | 13 |

| Sgôr BCI | BCI Critigol | BCI Cyfartaledd | BCI Cyfuniad |
|---|---|---|---|
| Da Iawn | 19 | 17 | 16 |
| Da | 5 | 59 | 42 |
| Boddhaol | 44 | 23 | 25 |
| Gwael | 22 | 1 | 12 |
| Gwael Iawn | 10 | 0 | 5 |

# Adolygiadau'r Adran

1. Gwasanaeth Edrychiad Stryd
2. Cynnal Tiroedd
3. Gwasanaeth Busnes a Chyflawni Prosiectau



Yn ôl i'r dashfwrdd